# ECO'R WYDDFA

RHIF 19 HYDREF 1977 PRIS: 10c

## ENCÔR!

### CÔR GENETHOD LLANBERIS YN AIL-DDECHRAU



*Ydych chi'n cofio aros allan tan oriau mân y bore i groesawu'r côr uchod adref ar ôl ennill yn yr Eisteddfod Genedlaethol? Daeth y rhain â bri ac anrhydeddau di-rifedi i'r ardal o'r flwyddyn 1960 i 1967. Saith mlynedd o gystadlu brwd mewn Eisteddfodau Cenedlaethol ac yn ennill ym mhob un! Caerdydd, Rhos, Llanelli, Llandudno, Abertawe, Y Drenewydd. Mae'r llun yn ymddangos trwy garedigrwydd Mrs. Helen Morris, Oakfield, Llanberis a phan ddangoswyd o i Miss C. Williams, Summer Hill enwodd yr holl aelodau yn syth, er fod y llun yn 14 mlynedd oed a'r genethod yn edrych ychydig bach, bach yn hŷn! Miss Williams oedd asgwrn cefn y côr, hi oedd y sefydlydd a'r hyfforddwraig. Daeth y cystadlu i ben yn 1967.*

*Ond ddydd Sadwrn diwethaf, Medi 24ain 1977 daeth genethod Llanberis a'r cylch at ei gilydd ar orchymyn Miss Williams unwaith eto i ddechrau ymarfer ar gyfer Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd y flwyddyn nesaf. "Does dim rheswm," medd Miss Williams, "na all y genethod yma gyrraedd yr un safon a dod ag anrhydeddau i'r fro unwaith eto." "Amen", meddai'r* Eco *i'r datganiad yma. Dymunwn bob llwyddiant iddynt yn y dyfodol.*

## PENCAMPWR Y BYD YN NEINIOLEN



*Daeth pencampwr y byd "billiards" sef Rex Williams i Ddeiniolen yn ystod y mis i chwarae gemau yn erbyn rhai o dîm y pentref. Rhan o weithgareddau'r Clwb Snwcer i godi arian i Gronfa John Ellis Pritchard, o Gaeathro. Gwnaed elw sylweddol iawn o'r marathon a gynhaliwyd ganddynt ychydig fisoedd yn ôl. Rhoddodd Rex Williams ei wasanaeth yn wirfoddol a rhoddodd arddangosfa eithriadol o'r ddawn o chwarae snwcer a billiards. Gwnaeth doriad o 131 mewn billiards a chafodd gêm eithriadol o agos â Meirion sydd yn y darlun gydag o. Y reffari oedd Mr. W.J. Williams, 38 Rhyd Fadog, Deiniolen, sy'n reffari trwyddedig. Rhoddodd Rex Williams giw billiards fel gwobr raffl.*

*Mwy o luniau ar dudalen 7*

## PLASDY TREBORTH
## LLE MAE CYFLE NEWYDD
## I BLANT A PHROBLEMAU ADDYSGOL

**MEWN plasdy a godwyd gan deulu masnachol - gefnog Davies, Treborth – y bu ganddo ar un adeg gymaint â deugain o longau masnach yn hwylio allan o'r Fenai i bedwar ban y byd – y mae heddiw ysgol breswyl ar gyfer plant Gwynedd sydd â phroblemau addysgol arbennig.**

**Fe ddaw 43 disgybl yr ysgol o bob rhan o Wynedd – yn ymestyn o'r Bala a'r Bermo ym Meirionnydd, i Langian yn Nwyfor, Llanfairfechan yn Aberconwy, ac i Falltraeth a Bodedern ym Môn. Mae 35 o'r plant yn byw i mewn a daw 8 i mewn yn ddyddiol.**

### ADFEROL

A'r hyn sy'n gyffredin rhwng y plant i gyd yw bod ganddynt broblemau addysgol efo darllen, ysgrifennu neu gyfrif. Mae record o fethiant mewn un neu fwy o'r cyfeiriadau hyn gan bob un, a'r profiad hwnnw'n aml wedi achosi i'r plentyn golli ffydd, nid yn unig yn ei allu i ddysgu'r tair 'R' ond hefyd ynddo'i hunan fel personoliaeth. Tasg adferol sydd felly'n sylfaenol i Dreborth.

Bydd Cyngor Sir Gwynedd yn trefnu i gludo'r plant o bob rhan o'r Sir i'r ysgol. Tasg gyntaf y prifathro a'i staff efo'r plentyn newydd yw ei wneud yn gartrefol. Yn wir, mynn y prifathro, Mr. W. Parry Williams, brodor o Sarn Mellteyrn, Llŷn, y daethai ei daid i Dreborth yn was bach gan mlynedd yn ôl i ddysgu Saesneg! bod ei bwyslais ar fod Treborth yn 'gartref lle mae addysgu yn rhan o'r broses adferol.'

### MOETHUS

Argraff gyntaf y plentyn, mae'n debyg, yw bod ei ysgol newydd mor foethus, gyda'r carpedi yn y lolfa ac yn ystafelloedd gwely, lle mae hefyd raniad preifat i bob plentyn. Pob cyfle i adloniant hefyd, efo'r gymnasiwn a'r neuadd yn un, a'r pwll nofio y gellir cynhesu ei ddŵr. Mae yn Nhreborth awyrgylch freintiedig fwriadol i blant a wybu eu difreintio oherwydd diffygion addysgol. Meddai'r prifathro:

"Ni ddylai plentyn dan anfantais gael ei amddifadu o brofiadau oherwydd ei anfanteision, boed rheini'n addysgiadol neu gymdeithasol."

Wedi i'r plentyn ddod i mewn a setlo i lawr, eir ati i geisio paratoi ar ei gyfer raglen addysgol arbennig iddo'i hun.

Meddai Mr. Williams: "Cawn yn ystod yr wythnosau cyntaf, wybod beth yw diddordebau a chyraeddiadau'r plentyn. Beth hefyd yw ei broblemau unigol. A chan fod chwech o athrawon i ddysgu 43 o blant – rhyw un athro i 7 plentyn – mae'r dysgu yn Nhreborth o reidrwydd yn broses o ddysgu pob plentyn ar ei ben ei hun.

### CYFEIRIO CYNNAR

Fe roddir pwyslais ar ei ddysgu yn y medrau sylfaenol – darllen, ysgrifennu a rhifo. Pwysleisia Mr. Williams ei bod yn holl bwysig bod plant gyda phroblemau addysgol, yn cael eu cyfeirio am addysg arbennig yn gynnar yn yr Ysgol Gynradd, a chyn eu hanfon i'r ysgol uwchradd fwy a llai personol.

Agwedd bwysig arall ar ddysgu yn Nhreborth yw meithrin hunanymddiriedaeth y plant. Rhan o'r broses honno yw'r Clybiau Sgowtiaid a'r 'Guides' sy'n yr ysgol. Y Clwb Dringo Mynyddoedd hefyd a'r Clwb Nofio. A graddir cystadlaethau'r mabolgampau ac Eisteddfod yr Ysgol yn y fath fodd fel bod pob plentyn yn gallu llwyddo yn rhywbeth.

"Mae rhoi mesur o lwyddiant i'r plant yma", meddai'r prifathro, "fel llwyaid o ffisig iddyn nhw. Mae nhw wedi cael eu dwrdio gymaint, ac wedi profi cymaint o fethiant, fel mai profiad o lwyddo yw eu hangen rwan."

A chyda'r un bwriad y ffurfiwyd 'Cyngor yr Ysgol' lle daw 6 o'r plant hynaf, tair merch a thri bachgen – i drafod efo'r prifathro broblemau disgyblaeth yr ysgol.

"'Rydan ni drwyddo wedi datrys nifer o broblemau disgyblaeth eisoes," meddai Mr. Williams.

### YMARFEROL

Agwedd arall ar addysg Treborth yw ei bod yn addysg ymarferol i baratoi ei disgyblion ar gyfer y gymdeithas yr â'r

*Parhad Tud 2*



# BRYN-REFAIL

**PRIODAS** — Ddydd Gwener, Medi 16eg priodwyd Miss Gillian Donald, 57 Alstonfield Rd., Lerpwl a Mr. Gwynfor Jones, Greuor Villa yn y 'Protestant Reformers Memorial Church', Lerpwl. Y gweinyddesau oedd Misses Christine Pritchard, Joan Sargent a Medwen Jones, a'r gwas oedd Mr. Myrddin Jones. Mae'r briodferch ar staff Ysbyty Bryn Seiont a'r priodfab yn Ferodo, Caernarfon. Byddant yn cartrefu yn Ael-y-Bryn.

**GWAELEDD** — Dymunwn adferiad buan i Mr. Edwin Jones, Cytir sydd yn Ysbyty Môn ac Arfon.

**CLWB YR HENOED** — Nos Fawrth, Medi'r 20fed, cafwyd noson ddiddorol yng nghwmni Mr. Griffith, y Prif Arolygydd Trafnidiaeth. Ymdriniodd ag amrywiol ddamweiniau a phroblemau ar y ffyrdd. Ddydd Gwener, Medi'r 9fed bu aelodau'r clwb am drip ar Drên Llyn Padarn.

**Y CAE CHWARAE** — Ar ôl llawer ymdrech, llwyddwyd i gael cae chwarae i'r pentref drwy garedigrwydd Mr. G.F.C. Mellstrom, Surrey — perchennog Bryn Madog, a fu mor garedig â rhoi'r tir yn anrheg i blant y pentref. Dydd Llun, Gŵyl y Banc, daeth rhieni ieuenctid a phlant ynghyd i glirio'r cae a thorri'r glaswellt ar gyfer y Gemau Giamocs ddydd Sadwrn Medi'r 3ydd.

**GEMAU GIAMOCS** — Daeth pedwar tîm i gystadlu yn y gemau. Bu ymrafael rhyngddynt mewn pump cystadleuaeth. Capteiniaid y timau oedd Alwyn Roberts, Rose Welsby, Gerallt Jones a Carol Houston a'r tîm olaf a orfu. Yn ychwanegol, cafwyd gemau i'r plant ieuengaf. Dyma'r canlyniadau: **Ras ŵy ar lwy dan 7:** 1. Neil; 2. Rodney; 3. Alwen. **Dan 11:** 1. Toby; 2. Christine; 3. Robin. **Ras Babanod:** 1. Paul; 2. Kelvin; 3. Nicola. **Ras Sach dan 7:** 1. Alwen; 2. Neil; 3. Richard. **Dan 11:** 1. Kathy; 2. Robin; 3. Meinir. **Ras drithroed dan 7:** 1. Eluned a Sally; 2. Alwen a Caron; 3. Jackie a Richard. **Dan 11:** 1. Toby a Kevin; 2. Delyth ac Einir; 3. Meinir a Christine. **Ras dan 7:** 1. Neil; 2. Richard; 3. Eluned. **Dan 11:** 1. David; 2. Iestyn; 3. Kevin.

I gloi'r prynhawn cafwyd ras fawr i'r deugain o aelodau'r timau. Ashley Wager a orfu gydag Alwyn Roberts yn ail a James Houston yn drydydd. I ddiweddu'r dydd aeth deugain o'r pentrefwyr mewn pedwar ar ddeg o geir ar Helfa Drysor a fu yn llwyddiant mawr. Y buddugol oedd modur Maldwyn Jones, 1 Tai Orwig ac aeth y wobr gysur yn eiddo i Mr. Wilbert Williams Marino!

**CLWB DEG A DEUGAIN** — Yn dilyn llwyddiant ddydd y Gemau Giamocs, ffurfiwyd y Clwb uchod i drefnu adloniant amrywiol yn y pentref i'r dyfodol. Mabwysiadwyd enw'r Clwb gan i hanner cant o gyfeillion ymaelodi yn barod. O dan nawdd y Clwb, trefnwyd eisoes i gael Noson Tân Gwyllt a Barbeciw yng Nghae Chwarae'r Pentref am 6 o'r gloch Tachwedd 5ed. Erfynnir ar i rieni beidio â phrynu tân gwyllt i'w plant ond yn hytrach cyfrannu os dymunent i'r casgliad a fwriedir ei wneud o dŷ i dŷ yn yr wythnosau nesaf.

**CLWB Y MAMAU** — Nos Iau, Medi'r 8ed, cafwyd noson o wau a gwnio. Trefnwyd lluniaeth y noson gan Mrs. Audrey Roberts a Mrs. Shirley Roberts. Rhoddwyd y raffl gan Mrs. Moira Ellis ac fe'i henillwyd gan Mrs. Helen Roberts.

**DYWEDDIO** — Llongyfarchwn Miss Ann Morris Jones, merch Mr. a Mrs. Elwyn Jones, 1 Trem Eilian ar ei dyweddiad â Mr. Gareth Williams, mab Mr. a Mrs. Dafydd Williams, 1 Bron Helen, Clwt-y-bont.

# DEINIOLEN

**PRIODAS** — Dydd Sadwrn, Awst 27ain, yng Nghapel Pisga (EF) Rhiwlas priodwyd Mr. Robert Hefin Williams, mab hynaf Mr. a Mrs. Hywel Williams, 3 Pentre Helen a Miss Einir Wyn Owen, unig ferch Mr. a Mrs. Griff. Owen, Fron Deg, Rhiwlas. Gweinyddwyd gan y Parch. Tudor Davies, Bangor a'r Parch. George Brewer, Y Felinheli. Yr organydd oedd Mr. Richard Hugh Morris, gyda Thelynores Gwenllian Dwyryd wrth y delyn. Mae'r briodferch yn athrawes cerdd yn Ysgol Y Maelgwyn, Cyffordd Llandudno. Mae'n gantores enwog ac yn enillydd Cenedlaethol a rhyngwladol ac wedi ymddangos fel unawdydd yn Lloegr, Yr Alban, Iwerddon, Yr Almaen a Nigeria. Mae'r priodfab yn wneuthurwr celfi yn Austin Taylor, Bethesda.



**APÊL GWAUN GYNFI (Eisteddfod Genedlaethol 1979)** — Nos Sul, Medi 4ydd, cynhaliwyd Cymanfa Ganu yng Nghapel Ebenezer ar gychwyn ymgyrch y pentref at gyrraedd y nod o £2,900 ddisgwylir tuag at Steddfod Genedlaethol Caernarfon a'r Cylch. Cafwyd canu gwresog dan arweiniad Mr. Irfon Ellis, Llanberis, a chyflwynwyd eitemau yn eu ffordd digymar gan Rosalind a Myrddin Owen, Llanberis. Llywiwyd y gweithgareddau gan y Parch. Eryl Lloyd Davies, Ebenezer, ac ef estynnodd groeso cynnes y pentrefwyr i Mr. Morris Williams, Caernarfon, Cadeirydd y Gymanfa.

Cynhaliwyd noson goffi lwyddiannus tuag at yr un achos yn Festri Libanus, Clwt-y-bont, nos Wener, Medi 23ain, ac mae'r trefnyddion yn gwerthfawrogi'r gefnogaeth frwd a gafwyd ar y ddau achlysur uchod, sy'n argoeli'n dda i'n hymdrechion at gyrraedd y targed osodwyd i'r pentref.

**DOSBARTH WEA** — Yn Ysgol Gwaun Gynfi, nos Fawrth, Medi 20, cychwynnodd Mr. Emyr Price, MA, Bethel ar gyflwyno cyfres o ddarlithoedd dan nawdd y WEA ar 'Y Byd yn yr Ugeinfed Ganrif'. Cafwyd blas arbennig ar y ddarlith agoriadol oedd yn ymwneud â dylanwad y Rhyfel Byd Cyntaf ar y ganrif bresennol. Bydd y dosbarth yn cyfarfod bob nos Fawrth yn Ysgol Gwaun Gynfi, ac mae croeso cynnes yn aros y sawl ddymunai ymuno i wrando a thrafod sylwadau'r Darlithydd ar destunau yn amrywio o Hitler a'r Drydedd Reich, Rwsia, Mwsolini, China, Aneurin Bevan etc.

**CYDYMDEIMLO** — Gyda gofid y cyhoeddwn farwolaethau'r canlynol o'r pentrefwyr yn ystod Medi, Mr. R.T. Williams, Ffordd Deiniol, Mr. Ellis Parry, Pentre Helen a Mrs. Blodwen Rowlands, Vaynol House. Bydd lle gwag o golli'r tri ohonynt, ac estynnir cydymdeimlad diffuant at eu teuluoedd yn eu galar.

**NEWYDDION Y SEINDORF** — Bu'r Seindorf yn dygn baratoi ar gyfer cystadlaethau a gynhaliwyd ym Miwmares, ddydd Sadwrn, Medi 24ain, a phleser unwaith eto yw eu canmol ar eu llwyddiant.

Mae trefniadau ar droed i'r Seindorf gymryd rhan flaenllaw yn nheledlad gwasanaeth i'w gynnal yng nghapel Ebenezer yn ystod yr Hydref ar gyfer y rhaglen 'Dechrau Canu, Dechrau Canmol.'

**PLAID CYMRU** — Gwahoddir aelodau'r Gangen i Gyfarfod Blynyddol sydd i'w gynnal nos Lun, Hydref 24ain, yn 'stafell y Seindorf am 7 o'r gloch. Disgwylir y cynghorydd Mrs. Pat Larsen i annerch y cyfarfod.

Bwriedir cynnal Ffair Aeaf ar Tachwedd 3ydd, yn Ysgol Gwaun Gynfi a gwahoddir pawb garai helpu ddod i Ystafell y Seindorf nos Lun Hydref 3ydd am 8 o'r gloch i drefnu ffair.

# Bethel

**EISTEDDFOD GENEDLAETHOL (Caernarfon)** — Nos Fercher, Hydref 5ed, am 7.30 o'r gloch fe gynhelir Cyfarfod Cyhoeddus yn y Neuadd i gychwyn yr ymgyrch i godi arian at yr Eisteddfod Genedlaethol a gynhelir yng Nghaernarfon yn 1979. Fe drefnir i un o swyddogion yr Eisteddfod i ddod draw i annerch y cyfarfod. Gobeithio y ceir cefnogaeth dda o Fethel, Llanddeiniolen a Seion i roi cychwyn da i'r gweithgarwch.

**YR URDD** — Nos Wener, Hydref 7ed am 6.30 o'r gloch, bydd Cangen yr Urdd yn cyfarfod i agor y tymor. Bydd croeso mawr i blant newydd ymuno â'r gangen ac hefyd bydd croeso i unrhyw un â diddordeb ddod i helpu gyda'r arweinwyr.

**LLONGYFARCHIADAU** — i Mr. a Mrs. Arfon Hughes, Bryn Hyfryd ar enedigaeth merch fach, Sioned Eleri, ar Fedi 9ed.

Hefyd i Mr. a Mrs. M. Williams, Arfon House, ar enedigaeth merch fach.

**EISTEDDFOD BETHEL** — Nos Wener Hydref 7ed ar ôl yr Urdd fe gynhelir Noson Goffi yn y Neuadd. Yn y Noson Goffi fe dynnir Raffl yr Eisteddfod. Mae Pwyllgor yr Eisteddfod wedi gofyn i mi dynnu eich sylw at y ffaith fod cystadlaethau p'nawn Sadwrn yn gyfyngedig i blant Bethel.

**LLONGYFARCHIADAU** — Mae Cymdeithas Gelfyddydau De-ddwyrain Cymru wedi dewis un o gerddi Selwyn Griffith, Crud yr Awen, i'w chynnwys ar eu gwasanaeth 'Dial-a-Poem'. Bydd Selwyn yn mynd i lawr i Gwmbrân yn fuan i recordio un o'i gerddi a gyfansoddodd gyda phlant Ysgol Dolbadarn.

**CYNGOR CYMDEITHAS (Llanddeiniolen)** — Mae Mr. Goronwy Jones, Glan Gors, wedi ei ddewis yn un o gynrychiolwyr Bethel ar Gyngor Cymdeithas Llanddeiniolen. Mae'n dymuniadau gorau i Goronwy ar y Cyngor. Cynrychiolwyr arall Bethel yw Mr. W.G. Ellis, 15 Cremlyn a Mr. Richard Hughes, Fachell, Llanddeiniolen.

**YN WAEL** — Mae Mrs. Eunice Williams Bro Rhos wedi bod yn wael yn ei chartref yn ddiweddar. Dymunir gwellhad buan iddi hi a phawb arall yn y pentref sydd yn wael.

**CYMDEITHAS ADDYSG Y GWEITHWYR** — Nos Fawrth, Hydref 25ain bydd Dosbarth Nos ar 'Hanes Cymru' dan nawdd y WEA yn dechrau yn yr Ysgol. Gobeithir y ceir cefnogaeth deilwng i'r dosbarthiadau.

**CLWB IEUENCTID** — Nos Iau, Medi 22ain agorwyd tymor y Clwb Ieuenctid gyda'r arweinydd newydd Mr. Maldwyn Roberts, Llanrug. Bydd y clwb yn cyfarfod yn y Neuadd bob nos Iau am 7.30 o'r gloch.

**MERCHED Y WAWR** — Nos Fercher, Medi 14 cafwyd cyfarfod i ddechrau tymor y mudiad yn yr Ysgol dan lywyddiaeth Mrs. Shirley Evans. Mrs. Menna Williams, Waunfawr oedd y wraig wadd a chafwyd sgwrs ddiddorol iawn am ganu gwerin Cymru.

Mrs. Helen Bebb a Mrs. Madge Williams wnaeth y te. Ar y 12fed o Hydref cynhelir y cyfarfod nesaf yng nghwmni'r Parch. Huw J. Hughes, Mynydd Llandegai. Bydd croeso i aelodau newydd i ymuno.


DEWCH I

SIOP THOMAS PRITCHARD

*IRONMONGER*

BIRMINGHAM HOUSE
LLANBERIS
Ffôn: 206

AM NWYDDAU A CHELFI O BOB MATH I'R CARTREF

OLL AM BRISIAU RHAD!

BARGEINION TOPDEC bob mis



**E.W.&M.WILLIAMS**



Y BECWS DEINIOLEN

FFÔN: LLANBERIS 232

BARA FFRES — TEISENNAU BLASUS!

*(Rydym yn arbenigo mewn teisennau Priodas)*

***

DOSBARTHWN BOB LLUN, MERCHER A GWENER YN NEINIOLEN, DINORWIG, FACHWEN,

# ECO'R WYDDFA

RHIF 19 TACHWEDD 1977

**Golygydd:**
Arwel Jones,
Gwên-y-Wawr,
Glanffynnon,
Llanrug.
*Ffôn: Caernarfon 3719*

**Is-olygydd:**
Twrog Jones,
Pros Kairon,
Glanffynnon,
Llanrug.
*Ffôn: Caernarfon 4051*

Argraffwyd gan Wasg Gwynedd,
Nant Peris.

*Cyhoeddwyd gyda chymorth Cymdeithas Gelfyddydau Gogledd Cymru.*


**A gawn ni ddiolch i'r canlynol am eu cyfraniadau i gynnal pwysau a chostau argraffu** *Eco'r Wyddfa.*
**£1.50: Mr. a Mrs. Wyn Griffiths, Bryn Glas, Pentir; £1: Mr. H. Emyr Pritchard, Deiniolen; £1: Ceinwen; 50c: Di-enw.**

*(parhad o dudalen 1)*

plentyn yn ôl iddi. Ym mlynyddoedd olaf y plentyn yn yr ysgol, (14 – 16 oed) mae'r pwyslais yn sicr ar 'Baratoi am Fywyd' mewn cymdeithas. Rhan o'r paratoad hwnnw i'r bechgyn yw rhoi iddynt brofiad mewn gwaith adeiladu (a all ar yr un pryd gyfrannu tuag at gyfleusterau'r ysgol), gwersi drefio, trin car, yn ogystal ag edrych ar ôl y merlod, yr afr, yr hwch, yr ieir a'r gwyddau a fedd yr ysgol, a'r tŷ gwydr. Hyfforddir y merched hynaf yn amryfal alwadau cadw tŷ.

Dylid nodi un agwedd arall ar 'Addysg Treborth', sef ei fywyd cymdeithasol. Rhoir pob cyfle i'r plant gyfathrachu. Er enghraifft, bob nos Fawrth, bydd yno Ddisgo, efo rhai o ddisgyblion hynaf Ysgol David Hughes yn helpu i'w redeg. A chyda dwy finibus at eu gwasanaeth, eir â'r plant yn aml i weld rhyw fan neu'i gilydd o ddiddordeb yng Ngogledd Cymru.

**DEUFYD**

Datblygiad y blynyddoedd diwethaf hyn yn unig yw y gall y plant os mynnant, neu os mynn eu rhieni, fynd adref yn ddi-gost bob penwythnos i unrhyw ran o Wynedd ym minibus y Cyngor Sir, a'u casglu drachefn fore Llun.

"Cant felly, y gorau o ddeufyd," medd Mr. Parry Williams, "edrychant ymlaen at ddod i'r ysgol efo'i holl gyfleusterau fore Llun, ac wedyn at fynd adref nos Wener. O dan y drefn hon 'does neb yn chwarae triwant!"

Os oes athrawon neu rieni â diddordeb mewn cael gwybod mwy am Ysgol Treborth a'i chyfleusterau i blant efo problem dysgu, anfonwch air at **Y Cyfarwyddwr Addysg, Cyngor Sir Gwynedd, Caernarfon.**

# LLYTHYRAU

1 Deiniol Rd.,
Deiniolen.

*Annwyl Gyfaill,*

*Carwn drwy gyfrwng* **Eco'r Wyddfa** *ddiolch i'r rhai a fu yn trefnu y diwrnod a gawsom yn chwarel Dinorwig, pan oedd ar agor i'r cyhoedd. Gallaf siarad dros bob un o'r hen chwarelwyr mai diwrnod bendigedig oedd. Fy niolch pennaf i Mr. Alun Wyn Evans, Pentre Helen ac eraill am drefnu y diwrnod ac hefyd i Mrs. Arfon Jones am gael y lluniau ardderchog a dynnwyd ohonom fel cyn-chwarelwyr, yn rhad ac am ddim.*

*Ydwyf,*
*H. Emyr Pritchard.*

---

*Annwyl Olygydd,*
*Llythyr y Ddau Frawd*

*Y mae dau frawd wedi anfon i ddiolch am y cyfeiriad a wnaed yng ngholofn Mrs. Mary Lloyd Williams, "Agor Ffiniau'r Gorffennol" mis Gorffennaf, am eu diweddar dad, R.O. Thomas, Dinorwig, yn ennill ar y 'Challenge Solo' ym Mhafilliwn Caernarfon, Gŵyl Y Banc, Awst 1920. Meddant:*

"Dyma'r tro cyntaf erioed i ni weld enw ein tad mewn print yn ennill am ganu. Clywsom lawer o sôn amdano. Buasem yn falch iawn o fod wedi cael y fraint o'i glywed yn canu solo ar lwyfan. Cofiwn ei lais tenor yn canu yn y gynulleidfa yn Sardis (B) Dinorwig, ac mewn aml Gymanfa Ganu. Cafodd gynnig i deithio'r byd gyda'r 'Welsh Imperial Singers' ond gwrthododd y gwahoddiad. Yr oedd arno ofn gadael ein mam ei hun gyda'r plant yn fychan yn yr hen gartref.

Diolch yn fawr am yr hanes yn *Eco'r Wyddfa.*

*Yr eiddoch,*
*Arthur Thomas,*
*7 Augusta Place, Y Felinheli*
*David John Thomas,*
*Tŷ Capel Sardis (B), Dinorwig.*

*MYNWENT Y PLWYF*
*NANT PERIS*

*Annwyl Olygydd,*

*Rai dyddiau yn ôl rhoddais dro i hen ardal fy mebyd, Nant Peris, a thra yno â theulu, ymwelais â'm hen ffrindiau, rhoddais dro hefyd drwy'r fynwent, ac yn wir, yr oedd golwg afluniaidd ar y lle. Gwrych a glaswellt wedi tyfu'n uchel nes gorchuddio rhai enwau ar gerrig y beddau. Y llwybrau yn arwain at y beddau wedi eu cuddio gan dyfiant trwchus o laswellt a chwyn a chael fy hun yn troedio ar feddau (byddai hyn yn drosedd anfaddeuol yn nyddiau fy ieuenctid). Golygfa druenus yn wir. Yr oedd mintai o ymwelwyr (Saeson gyda llaw) yn sefyll wrth y fynedfa i'r fynwent, a daeth cywilydd arnaf wrth eu clywed yn dweud: "Shocking state" a "What a disgrace to a pretty village", ac ychwaneg o frawddegau tebyg. Gofynnodd un i mi pwy oedd yn gofalu am dacluso'r fynwent, a bu raid i mi gyfaddef na wyddwn pwy, ond gofynnais i rai o'm ffrindiau wedyn, "Wn i ddim," oedd eu hateb hwythau. Ond wedi i mi gael golwg ar* **Eco'r Wyddfa** *ddyddiau yn ddiweddarach, gwelais ynddo fod mintai o wirfoddolwyr y pentre wedi ymgymryd â dechrau tacluso tipyn. Clod iddynt am eu hewyllys da . Mae'r gwirfoddolwyr yn haeddu sylw'r plwyfolion am eu gwaith trugarog o barch i'r meirw. Ond onid mater i'r oll o'r plwyfolion yw hyn? Oni ddylai cyngor plwyf wneud rhywbeth. Mae'n debyg fel y dywed y Sais (out of sight, out of mind). Ond esgus wael yw hynny. Cywilydd o beth ydyw i fynwent o bob man gael ei hesgeuluso. Onid oes rhestr o gyfraniadau tuag at dacluso mynwent yn ymddangos mewn papurau lleol ambell dro? Ond nid oes dim i ddangos fod dim yn cael ei wario ar y fynwent oddigerth fod yna arwyddford hardd wedi ei gosod ar glwyd y fynwent, "The ancient Church of St. Peris" ac hefyd rhybudd arall yn ymyl mewn llythrennau breision fod y llecyn wedi ei neilltuo i gerbydau swyddogion eglwys St. Peris.*

*Wel, onid oes angen mwy na hyn yma o ymdrech? Credaf yn gydwybodol mai cyfrifoldeb y Llywodraeth Leol yw gofalu fod mynwent bob amser yn drefnus a thaclus, ac nid dibynnu yn hollol ar wirfoddolwyr, cymryd mantais ar ewyllys dda y cyfryw yw hyn.*

*Beth am roddi ambell i ddraenog dan grysau rhai o'r llywodraethwyr i'w symbylu i roddi arweiniad i'r cyhoedd yn hyn o beth?*

*Cofir fod ymwelwyr yn dod i'r ardal gyda llygaid agored pan fo'r llywodraethwyr yn dangos llygad dall i'r mater.*

*Draenog beth debygech chi?*
*W.D., Bangor*

---

*ADFYWIAD YR IAITH*

*Annwyl Olygydd,*

*Byddem yn ddiolchgar drwy gyfrwng eich papur, roi cyhoeddusrwydd i benderfyniad a wnaed yn Eisteddfod Genedlaethol Wrecsam i ffurfio grwpiau lleol i barhau a chyfnerthu'r twf diweddar a welwyd yn adfywiad yr iaith Gymraeg. Fe fyddai'r grwpiau lleol hyn yn gallu:*

*1. Cwrdd yn rheolaidd i wyntyllu barn ac i drafod datblygiadau sy'n niweidiol i'r iaith.*
*2. Bod yn barod i ymgyrchu, drwy lythyr neu weithred, yn erbyn unrhyw sefydliad cyhoeddus pan fo hwnnw'n ddifater neu'n elyniaethus i'r iaith.*
*3. Gweithredu'n gadarnhaol i wella sefyllfa'r iaith, a'i chodi o'i hargyfwng presennol.*
*4. Bod yn barod i roi cefnogaeth ymarferol fel y bo'r galw i unrhyw fudiad neu grŵp o bobl mewn ymgyrchoedd arbennig dros gyfiawnder i'r iaith.*

*Gweithredu ac ymateb i broblemau lleol fyddai prif waith y grwpiau hyn, ond dichon y gallai cydgysylltiad, ar adegau, fod yn fanteisiol mewn ymgyrchoedd arbennig. Erbyn diwedd Medi, gobeithiwn weld nifer o'r grwpiau mewn bodolaeth, a bwriadwn alw cyfarfod o'u cynrychiolwyr mewn man canolog er mwyn cael ffurfio polisi.*

*Tybed a oes rhai o'ch darllenwyr a fyddai'n barod i ffurfio grŵp ac i anfon cynrychiolydd? Os oes, byddem yn hynod falch o glywed oddi wrthynt.*

*Yr eiddoch yn gywir,*
*Mrs. Gwyneth Evans,*
*Ffrwd Wen, Cwmffrwd,*
*Caerfyrddin*

*R. Maldwyn Jones,*
*Llechwedd, 23 Gwrddi'r Twyn,*
*Caerfyrddin.*


**Gwesty Dolbadarn**

Tŷ Rhydd-Feddiant

**Llanberis**

Perchennog Aneuryn Jones

FFÔN : LLANBERIS 277

MAN DELFRYDOL I BARTI PRIODAS
NEU GINIO BLYNYDDOL

Hefyd
CANOLFAN DRECIO
Holwch am ein
telerau rhesymol




**AR WERTH**

Esgidiau pêl-droed 'Adidas', size 7½, bron yn newydd. Pris £5. Colin Jones, 2 Bryn Fedwen, Llanrug.

# Llannerch Y Llenor

gan SELWYN GRIFFITH

**BRAIDD yn siomedig oeddwn i ar gynnyrch Prifwyl Wrecsam. Ni welaf fawr ddim cofiadwy yn y gyfrol cyfansoddiadau. Nid yw'r awdl i'm tyb i'w chymharu â'r awdlau diweddaraf a gafwyd o gystadlaethau'r Eisteddfod – awdl 'Y Dewin', Moses Glyn Jones; 'Yr Afon', Gerallt Lloyd Owen, a'r ddwy awdl odidog a gafwyd o Aberteifi.**

Mae'r bryddest yn gynnil ac yn ddarllenadwy ond mae'n gwestiwn mawr gen i a fyddai'r mwyafrif mawr o wylwyr teledu yn ei mwynhau fel cerdd deledu. Fe garwn ei gweld ar y sgrîn.

Edrychaf ymlaen at weld cyhoeddi'r gyfrol ar Hanes Cewri o Gymry ym myd pêl-droed – yn ôl y beirniad John Evans – " "dyma'r gwaith pwysicaf a ymddangosodd ym myd y campau yn yr iaith Gymraeg."

Soniais yn y rhifyn diwethaf am y farathon o gystadleuaeth a gafwyd i gasglu englynion coffa oddi ar gerrig beddau. Roedd llunio cerdd goffa yn gystadleuaeth boblogaidd iawn yn eisteddfeodau'r fro 'ma ddechrau'r ganrif, a'r teulu fel arfer yn rhoddi'r wobr am gerdd goffa i'r ymadawedig.

Dyma rai englynion coffa a anfonwyd i mi. Oes rhywun yn gwybod pwy yw'r awduron etc?

**ENGLYNION
I MISS KATE WILLIAMS
TALAVAN TERRACE, LLANBERIS**

Kate Williams, ac attolwg – gu fenyw
Gyfanaf mae'n amlwg
Mor ddeniadol ei golwg,
Hardd ei gwên heb arwydd gwg.

Un gariadus mi gredwn – a'i gwyneb
Yn ogoniant draethwn;
Menyw hael mwyn a welwn–hudolus
Gywir ei gwefus pob gair a gofiwn.

**ER COFFADWRIAETH
AM Y DIWEDDAR
MR. JOHN WILLIAMS
BRYN COCH, LLANBERIS**

Gwr di-fwlch ei gariad fu – a didwyll
Nodedig sy'n haeddu;
Os yn ei arch ei barchu
Ei fawr boen o'i lafur bu.

Dyn cofus, doniau cyfan – yn gerddor
Ag urddas o'i arian;
Er pob hiraeth aeth weithian
O Fryn Coch i fryniau cân.
Mawl gaiff ac aml ei goffa
Yng ngair doeth ei gyngor da.

Apeliais y tro diwetha' am gerddi, ond llwm fu'r ymateb. Efallai y daw'r awen heibio yng nghysgod nosweithiau hir y gaea' 'ma.

I gloi am y tro dyma brofi fod awelon Bethel yn cynhyrfu awen Gwilym Davies beth bynnag. Diolch iddo am ei gyfraniad unwaith eto.

Hwyl,
Selwyn.

**AWELON BETHEL**

Ym Methel mae awelon – a chwery
Fel chwiorydd tirion:
Llancesau a lleisiau llon;
Rhai hudol eu sibrydion.

Ond i'w harddel daw hyrddwynt;
Eu gwanar, anwar ei hynt.

Hwn a dyr frigau'r deri, – gyr y llif
Garw i'r llan yn genlli:
O'i rwyd anwar daw ynni
Rwyga â'i nerth ein hargae ni.

A'r awelon llon yn llu, – i'w chwarae
Daw'r chwerwedd sy'n llygru,
Â'u hawch i efelychu
Nwydus hynt eu hyrddwynt hy.

*G.E. Davies
Y Ddol.*

## SAGA TŶ TAFARN PEN Y BONT, PONTRHYTHALLT
gan W.D. Williams, Llanberis

**DYMA lun sydd tua 115 mlwydd oed, ac yma y ganwyd fy nhad (Hugh R. Williams, R'Aber, Cwm-y-glo ymhellach ymlaen).**



Yr oedd fy nhad (sydd yn sefyll yn ymyl ei fam a'i dad o flaen Pen-y-bont, tua 8 i 9 oed pan dynnwyd y llun).

Hen daid i mi a ddechreuodd adeiladu y Tŷ Tafarn hwn, a thaid yn ei orffen, canys Saer Maen oedd ei waith.

Tua'r adeg honno, sef rhyw flwyddyn ar ôl i'r llun yma gael ei dynnu, daeth anffawd i'r hen deulu. Daeth dau ddyn go bwysig o Ystad Glynllifon a chyhuddo fy nhaid ei fod wedi adeiladu yr adeilad ar ran o dir Ystad Glyn Llifon, ac yn rhoddi nodyn iddo ymadael oddi yno.

Gwyddai pawb mai "common ground" oedd y tir a oedd y tu ôl i'r adeilad yr amser hynny, ac nid oedd dim ond ysbwriel yn cael ei daflu yno.

Ond i'r Cwrt i Gaernarfon fu raid i'r hen deulu fynd, ac wrth gwrs, gan "Lord Newborough" roedd arian a'r dylanwad yn y cwrt, a cholli y cwbl wnaeth fy nhaid a'm nain, a mynd i fyw i'r Cwm.

Yn y llun gwelwch fod ynddo ddau o Swyddogion y Rheilffordd (L.N.W.R.). Roedd y rheilffordd wedi cyrraedd Pontrhythallt, a'r gwaith gyda'r rheilffordd yn mynd ymlaen trwy Cwm a thua Llanberis yr adeg honno.

Un enghraifft yw hyn o'r tlawd yn gorfod dioddef llawer iawn o annhegwch oddi wrth rai fel Lord Newborough ac hefyd Aston Smith, Y Faenol.

# CHWEDLAU'R FRO

gan JOHN OWEN HUWS

**OS edrychwch ar y garreg fe welwch fod twll drwyddi, a hwnnw'n un naturiol. 'Rwan am fod cerrig o'r fath yn brin iawn daeth pobl i gredu fod ganddynt rym anghyffredin.**

Credid bod gan garreg o'r fath y gallu i lesteirio aflan a defnyddid hwy i wella afiechyd ar ddyn ac anifail. Credai rhai iddynt gael eu gwneud gan nadroedd, yn enwedig gwiberod. Dywedid y deuai llawer o'r nadroedd hyn at ei gilydd ar adeg arbennig o'r flwyddyn a chlymu eu hunain yn bêl. Tra fel hyn byddent yn poeri a chaledai'r poer yn garreg. O'r herwydd




defnyddid carreg o'r fath yn aml i wella brath gwiber. Dywedir i ddyn o'r Alban yn y ganrif ddiwethaf gael ei wella drwy rwbio'r brath â charreg o'r fath.

Credid y medrai'r cerrig hefyd wella twymyn, pâs, atal hunllef ac atal llyfreithod. Cludai llawer hwy yn eu poced er cael lwc dda a'u trosglwyddo hwy o law i law. Arferid eu gosod mewn beudai a stablau hefyd gan y credid y diogelent yr anifeiliaid rhag cael eu rheibio.

Gwelir enghraifft fawr o garreg o'r fath ger Madron, Cernyw hyd heddiw. Yno saif y 'Men-en-Tol' (Maen-a-Thwll). Arferai fod yn fynedfa hen feddród a ddiflannodd erbyn hyn i ardal y Maen. Am ganrifoedd lawer fe gredid fod gan y garreg alluoedd meddyginiaethol ac arferid dod â phlant nychlyd yno i'w gwella drwy eu rhoi drwy'r maen naw gwaith. Ni ddarfu'r arferiad hwn ond yn ddiweddar iawn.

Ceid arferiad tebyg ar y Gogarth, Llandudno flynyddoedd yn ôl. Yno safai maen pantiog a bwysai dunelli lawer. Safai ar ben craig, a siglai gyda'r symudiad lleiaf. Ei enw oedd Crud Tudno, sef nawdd Sant y llan gerllaw. Er nad oedd twll drwy'r maen, 'roedd hwn eto'n anghyffredin a daethpwyd i gredu fod ganddo alluoedd meddyginiaethol. O'r herwydd arferid dod â phlant gweinion yma eto i'w gwella.

Tebyg oedd y gred gyda choed a brigyn a dyfai at y ddaear, ail wreiddio yno, a thyfu i fyny wedyn. Yma eto arferid rhoi plant gweinion drwy'r bwlch rhwng y boncyff a'r ail wraidd i'w gwella.

**E& E.M.GREEN**

**SIOP GRON**

**PENISARWAUN**

*

**Nwyddau Groser
Ffrwythau a Llysiau Ffres**

*

*Dewis rhagorol
Croeso cartrefol*

# LLANBERIS

**O'R YSBYTY** – Da yw gweld fod Mrs. Jones, 3 Field Terrace wedi dod adref o'r ysbyty.

Hefyd Mrs. Barbara Owen, Garthmaelog. Dymunwn wellhad buan i'r ddwy.

**AR WYLIAU** – Yn ystod y mis bu Mr. a Mrs. Walter Roberts, a'u plant yn ymweld â'r pentref. Maent ers rai blynyddoedd bellach wedi cartrefu yn yr Alban. 'Roedd y teulu yn aros hefo mam Mr. Roberts, sef Mrs. Nellie Roberts, 18 Stryd Fawr.

**CWMNI DRAMA** – Mae'r Cwmni Drama lleol wedi dechrau ymarfer eu drama newydd. Y ddrama eleni fydd 'Dwy Frân Ddu', comedi gan E. Eynon Evans, wedi ei throsi i'r Gymraeg gan J. Ellis Williams. Y cynhyrchydd yw Mr. Dafydd Price, Cwm-y-glo.

**CYFARFOD SEFYDLU** – Nos Fawrth Medi'r 6ed, aeth cynrychiolaeth deg o drigolion Llanberis i gyfarfod sefydlu'r Parch. John Owen yng Nghapel y Tabernacl, Rhuthun. Ar ôl y cyfarfod 'roedd gwledd ardderchog wedi ei pharatoi, ac 'roedd pawb wedi cael amser bendigedig.

**MARWOLAETHAU** – Ar ôl cystudd hir iawn bu farw Mr. John Raymond Ellis, Victoria Terrace, yn Ysbyty Môn ac Arfon. 'Roedd yn gymeriad hoffus iawn ac yn 'denor' ardderchog, yn aelod ffyddlon o Gôr Meibion Cylch Caernarfon. Cydymdeimlir â'i weddw a'i fab yn eu colled.

**CYDYMDEIMLAD** – Estynnir y cydymdeimlad dwysaf i Mr. a Mrs. Charles Phillips, 9 Stryd Newton o golli eu merch fach, Marian, mor annisgwyl. Mae un cysur mawr ganddynt, mae iddynt ddau blentyn arall i'w magu a'u caru, sef Sharon a Mark.

**LLONGYFARCHIADAU** – i Mr. a Mrs. Peter Fretwell, Llwyndyrus ar enedigaeth eu merch fach, Llinos Wyn.

**PRIODAS** – Yng nghapel Nant Padarn yn ddiweddar priodwyd Dilys Wyn Roberts, merch Mrs. Clara Roberts a'r diweddar Mr. W. Roberts, Argraig, Llainwen Uchaf â Gareth Williams, mab Mrs. H. Williams, a'r diweddar Mr. O. Williams, 30 Maes Hyfryd, Llangefni. Maent wedi cartrefu yn 60B Maes Padarn.

**YN YR YSBYTY** – Mae Mrs. Olwen Roberts, Sŵn y Gwynt a Mrs. Williams, Beech Bank yn yr ysbyty ym Mangor yn derbyn triniaeth lawfeddygol. Dymunir iddynt adferiad llwyr yn fuan iawn.

Hefyd yn Llandudno mae Mrs. John Roberts, Harford Hill yn gwella yn dda.

**CLWB METHEDIG ERYRI** – Mae y Clwb uchod wedi dechrau tymor newydd o dan swyddogion newydd. Cadeirydd: Mr. Jeff Pierrot, Penisarwaun; Ysgrifennydd: Mrs. R. Williams, 11 Victoria Terrace, Llanberis; Trysorydd: Mrs. M.E. Jones, 10 Rhesdai Victoria, Llanberis.

Dydd Llun Medi 26ain trefnwyd trip pnawn drwy Beddgelert a Phorthmadog a lluniaeth ysgafn ym Mhorthmadog.

Mae Mrs. K. Williams, Derwen Deg, Ffordd Tŷ Du yn ysbyty Minffordd Bangor a dymunir iddi adferiad buan.

**YN YR YSBYTY** – Mae Mrs. Nellie Owen, Coed Mawr wedi cael triniaeth yn Ysbty Bangor ond yn awr wedi dychwelyd adref. Dymunir adferiad llwyr iddi.

**YMDDEOL** – Mae Dr. J. Noel Roberts, Y Maes, Caernarfon, mab y diweddar Dr. Roberts, Bryngwyddfan, Llanberis wedi ymddeol. Ar ran pentref Llanberis – Hwyl Fawr i chwi a Mrs. Roberts, a diolch yn fawr.

**PROFEDIGAETH** – Cydymdeimlad llwyraf yr ardal â Mrs. Squires ar ôl colli ei chwaer.

**YN ÔL I AWSTRALIA** – Rhaid oedd dweud ffarwel wrth Mr. John Closs (Cwm Eilir Uchaf gynt) ar ôl ei arhosiad am fis yn yr hen ardal. Roedd pawb o'i ffrindiau yn hynod falch o'i weld yn ôl ac yn edrych mor dda. Hwyl fawr John.

**DOSBARTHIADAU WEA**: Bydd dosbarthiadau'r WEA dan ofal Mrs. Mary Vaughan Jones, Y Waunfawr, yn dechrau yn Ysgol Dolbadarn Tachwedd 3ydd am 7.30 p.m. Taer erfynnir am eich cefnogaeth.

**LLONGYFARCHIADAU** – i Heather, merch Mr. a Mrs. Charles Saynor ar ei phenblwydd yn 21ain ar Fedi 30ain.

## YM MYD MODURO



**MAE ceir sydd â pheiriant gyda phen aloi (alloy), yn fwy tueddol i gael ei niweidio na rhai gyda phen haearn bwrw. Hyn yn arbennig o wir gyda pheiriant na ddefnyddia ddŵr i'w oeri (air cooled) e.e. Volkswagen. Cadwch at y cyfarwyddiadau isod wrth newid neu lanhau eich plygiau tanio.**

(a) GOFALWCH adael i'r peiriant oeri cyn tynnu'r plygiau. (b) Os digwydd i'r plygiau wrthod llacio pan geisiwch eu tynnu, trowch y plwg yn ôl a blaen ychydig weithiau. Gall hyn fod o help i dorri i fyny yr aliwminiwm neu unrhyw fater arall a all fod wedi caledu ar y sgriw, ac o'r herwydd yn rhwystr i'r plwg ddatod.

Cefnogwch ein Hysbysebwyr

## TYSTION MUD ..... I'R GOGONIANT A FU"



**Yn ei gyfrol o 'Hen Atgofion' cyfeiria y Dr. W.J. Gruffydd at bedwar cyfnod yn natblygiad cymdeithas yn hen ardal Bethel fel a ganlyn:**
**(1) Newid ar fywyd y werin 1800 – 1850.**
**(2) Tyfiant ym mywyd y werin 1850 – 1890.**
**(3) Addysg i'r Werin 1890 – 1914.**
**(4) Canlyniadau addysg y Werin 1914 – 1932.**

Tebyg mai yn ystod cyfnod Addysg y Werin y tynnwyd y llun hwn o Gerddorfa Capel yr Annibynwyr ym Methel.

Wrth edrych arno gwelaf, nid yn unig wynebau sydd erbyn heddiw imi yn ddi-enw, a'u hamrywiol offerynnau cerdd, ond yn hytrach ddarlun perffaith o ddiwylliant gwerin gwlad ar ei gorau, a chaf fy ngwefreiddio o ystyried ymroddiad y meibion a'r merched hyn i'n cerddorfa.

Mae hyn yn ysgogi fy nychymyg a'm cywreinrwydd ac yn peri i mi holi pwy tybed gafodd y syniad o sefydlu cerddorfa; ai yr arweinydd golygus a welir yn y darlun? O ba le y daeth yr offerynnau amrywiol a beth tybed a fu y gost o'u prynu i'r aelodau a'u henillion prin? A thybed pa le y maent erbyn hyn? Clywais yn ddiweddar fod un offeryn ar gael a chadw o hyd. Pa sawl awr mewn wythnos a neilltuwyd i ymarfer, ar ôl diwrnod hir-faith a chaled yn y chwarel, ar y fferm neu mewn gweithdy pentref, heb anghofio nad oedd unman i ymarfer ond festri capel, cyn bod sôn am neuadd bentref?

Mae ffiniau pentref Bethel wedi eangu llawer, a'i phoblogaeth wedi cynyddu yn fawr ers dyddiau'r darlun, ond tybed a gynyddodd ei diwylliant yn gymesur? Rhoddir arbenigrwydd yn ein dyddiau ni ar gadw iaith a gwarchod ein hetifeddiaeth, a phwy a wâd bwysigrwydd bob ymdrech i wneud hyn.

Ond rhaid gofyn beth fu 'canlyniadau addysg y werin?"

Yn sgîl datblygiad yr hanner canrif olaf, diflannodd yr hen gymdeithas glos, gymdogol a diwylliedig a fu'n grud i gôr a cherddorfa, i Ŵyl Lenyddol, Seiat ac Eisteddfod y Plant, ac i gangen o'r YMCA a fu am flynyddoedd yn gyfrwng adloniant a diwylliant i lu o ieuenctid. A gollodd y werin ei diwylliant yn sgîl ei haddysg?

Wrth wrando ar sgwrs ddifyr Selwyn Griffith yn rhaglen 'Rhwng Gŵyl a Gwaith' yn ddiweddar, a'i gyfeiriad at Weinidogaeth rymus y Parch. Rhys. T. Huws yn yr ardal. 'Roedd y sylw a wnaeth ag ymateb y gweinidog dawnus at y pêl-droedwyr yn yr ardal yn dwyn ar gof imi eraill o wŷr da y pentref a fu'n ddiwyd yn gwarchod y ffiniau, moesol a diwylliant o fewn y Gymdeithas yn onest a diffuant ac a fu hefyd yn meithrin a hybu y diwylliant gwerinol.


Mawr yw fy mharch a'm hedmygedd o'r hen ardalwyr gynt, a fu, mewn cyfnod llawer prinnach ei fanteision, yn cynysgaeddu, yn meithrin a gwarchod, er mwyn cyflwyno i'r cenedlaethau a ddeuai, beth o'r gogoniant a fu.

Mae'r darlun hwn yn fy meddiant gan fod un o'mhynafiaid yn aelod o'r gerddorfa sef Mr. Richard Williams, Ysgoldy (yr ail o'r dde). Un o deulu'r Ffowciaid – yr wyf yn ymhyfrydu o gael bod yn un o'u hil, teulu â pherthynas agos â sefydlu yr enwad annibynnol yn yr ardal.

Tybed a oes rhywun a all gyfrannu mwy o wybodaeth am eraill o aelodau'r gerddorfa?

Mrs. Helen Jones,
Bod Hyfryd,
Ffordd y Gogledd,
Caernarfon (gynt o Fethel)

AM DRIP CYFFORDDUS, DIOGEL A RHAD
I BLE BYNNAG Y BO ...............
Eric Morris



Bwsiau Arfon
LLANRUG
FFÔN WAUNFAWR 254

**I OHEBWYR A CHYFRANWYR YR ECO RHIFYN TACHWEDD**

Y cynnyrch i law'r Golygydd erbyn **NOS FERCHER, HYDREF 19eg**

Daw'r rhifyn nesaf allan ar **HYDREF 27**

# SIBRYDION O'R YSGOLION



*Rhai o blant (3 yn absennol) Ysgol Babanod Brynrefail yn darllen llythyr a dderbyniwyd o Blas Buckingham yn diolch am waith a wnaed ganddynt ar achlysur y Jiwbili.*



*Darlun o fechgyn hynaf Ysgol Cwm-y-glo a fu'n llwyddiannus yn ennill tystysgrifau a bathodynau am nofio 50 medr. Yn y llun mae Mr. Eurwyn Jones yn cyflwyno tystysgrifau i Gareth Roberts, Neil Rowlands, Martin Jones, Iestyn Jones, Toby Manning, Islwyn Jones, Dilwyn Morris, Mark Jones. Llongyfarchiadau i'r bechgyn ar eu llwyddiant.*

### YSGOL BRYNREFAIL

**DECHREUODD blwyddyn ysgol newydd yn ystod y mis hwn a charwn estyn croeso arbennig i'r rhai hynny sydd ar eu blwyddyn gyntaf yn yr ysgol. Dymuniadau gorau hefyd i'r rhai sydd wedi gadael yr ysgol; rhai i wahanol weithfeydd, ac eraill i'r colegau.**

**Llongyfarchwn hefyd y rhai fu'n llwyddiannus yn arholiadau'r Lefel 'A', Lefel 'O' a TAU eleni. Hoffwn estyn croeso cynnes i ddau athro newydd a ddaeth i'n plith y tymor hwn, sef Mrs. Mary Hughes, a Mr. Howyn P. Jones.**


## GWILYM JONES
## Monumental Works
## LLANRUG

Gwaith Coffaol o bob math mewn llechi a gwenithfaen gan grefftwyr lleol



**FFÔN**
**CAERNARFON 2898**


## CYFRESI NEWYDD I YSGOLION

**Bydd Olwen Rees yn cyflwyno dau gymeriad annwyl sef Twm y Panda a Nico'r Mwnci yn 'Dere Di', cyfres newydd ail-iaith ar gyfer plant 5 i 7 oed sy'n cychwyn ar Radio Cymru ddydd Mawrth, Medi 20.**

Darlledir dwy raglen wahanol bob wythnos (ar ddydd Mawrth a dydd Iau) am dri thymor. Bwriedir y gyfres, y gyntaf erioed ar y radio i blant o dan saith, yn bennaf i'r plant hynny sy'n cymryd rhan yng Nghynllun Addysg Ddwyieithog y Cyngor Ysgolion a'r rheini o gartrefi Saesneg sy'n mynychu ysgolion mewn ardaloedd Cymraeg.

Gellir archebu copi o'r Nodiadau i'r Athro oddi wrth **Bennaeth Adran Darlledu Addysgol yng Nghymru, BBC, Llandâf, Caerdydd, CF5 2YQ.**
Cynhyrchydd: **Berian Davies.**

Gwella ansawdd iaith plant yw bwriad y gyfres newydd 'Ffenestri' sy'n cychwyn ar Deledu BBC Cymru ddydd Mercher, Medi 21. Yn y gyfres bydd dau gymeriad: Ceridwen, sef Hazel Wyn Williams o Gwm Tawe, a Gwydion, sef Dyfed Thomas, o'r Rhos, yn trin a thrafod geiriau, yn canu caneuon ac yn actio storiau. Fe sylwir fod 'Ceridwen' yn dod o'r de, a 'Gwydion' o'r gogledd. Cyflwynir y rhaglen gan Mair Robbins, sy'n aelod o'r 'Diliau'. **Cynhyrchydd:** Wynne Lloyd.

## Beth am golli ychydig o bwysau?

### CLWB RHEDWYR ERYRI

SEFYDLWYD Clwb newydd spon yn yr ardal sydd yn agored i bawb o naw oed i fyny, genethod a bechgyn. Prif fwriad y Clwb yw cynnal cyfarfodydd wythnosol yn ardal Eryri i ymarfer a dysgu rhedeg ar y mynyddoedd a'r bryniau. Hwn yw'r unig Glwb Athletau yng Ngwynedd ac fe fydd yn cael ei gynrychioli ym mhrif gyfarfodydd rasus mynyddoedd Prydain Fawr. Ar hyn o bryd mae'n cyfarfod am 6.30 bob nos Fercher ond newidir hyn i'r pen wythnos yn ystod misoedd y gaeaf. Tâl aelodaeth: £2 a £1 i blant ysgol.

Manylion gan yr ysgrifennydd: Huw Davies, Hafod Bach, Llanberis neu gan y cadeirydd: Ken Jones, 10 Glanrafon, Nant Peris.

Croeso i bawb – Pob oed a phob maint.

## EISTEDDFOD GADEIRIOL DYFFRYN OGWEN

### DROS £500 MEWN GWOBRAU

**AM y tro cyntaf yn ei hanes hir mae Eisteddfod Dyffryn Ogwen yn cynnig dros £500 mewn gwobrau ariannol. Cynigir gwobr o £100 i gôr merched neu gôr meibion neu gôr cymysg a gobeithir denu nifer sylweddol o gorau. Yn ogystal â'r gwobrau ariannol, cynigir 17 cwpan, 4 tarian, 1 plât arian, tocynnau llyfrau, model o gadair a chadair esmwyth i'r bardd buddugol.**

Cynhelir yr Eisteddfod yn neuadd Ysgol Dyffryn Ogwen, Bethesda, nos Wener, Tachwedd 18 a dydd Sadwrn, Tachwedd 19. Cynhelir bron i gant o gystadlaethau yn cynnwys 38 o rai cerdd, 17 o rai adrodd, 15 o rai llên a bron i 30 o rai amrywiol yn cynnwys cystadlaethau coginio, gwnio, gwaith coed, metel a llechfaen, arlunio a ffotograffiaeth.

Mae Eisteddfod Gadeiriol Dyffryn Ogwen yn denu cystadleuwyr o bob rhan o Wynedd a thu draw i'w ffiniau ac mae'n enwog am safon y cystadlu a chroeso'r gynulleidfa.

Mae'r Rhestr Testunau ar gael yn y siopau neu gellir cael copi drwy anfon stamp 7c at:
**Mr. Emlyn Jones, 5, Maes Coetmor, Bethesda, Bangor.**


**10% oddi ar Bapur Wal a Phaent Leyland & Jellipex yn**

## E.WILSON HUGHES
**84 Stryd Fawr**
**LLANBERIS**


*Ffôn: Llanberis 491*

**MELYSION A BACO AR WERTH HEFYD**

# Robert Parry

CEUNANT LLANRUG

**Ganwyd ef ar yr 8fed o Orffennaf 1840 ym Mrynffynnon, Ceunant, Llanrug yn fab i Henry a Mary Jones, ac ef oedd yr ieuengaf o chwech o blant.**



Ni chafodd well addysg na phlant eraill y cylch achos cyflog bychan a gai ei dad fel gwas ffarm ym Mhantafon, sef swllt y dydd. Pan dyfodd i fyny aeth am gwrs byr i Ysgol Ramadeg Clynnog a bu hyn yn gymorth iddo gyda'r gwaith mawr oedd yn ei aros.

O ran ei ymddangosiad, meddai gorff cryf a hardd, a phersonoliaeth urddasol a dull hoffus. Yn 1867 priododd ag Ann, merch John a Mary Hughes, Y Merddyn, Ceunant. Aethant i fyw i Bant Hyfryd, Ceunant ac yno ganwyd iddynt chwech o blant.

Bu Robert Parry yn ffyddlon iawn i Eglwys M.C. y Ceunant fel athro yn yr Ysgol Sul yn gofalu am y bechgyn ieuainc. Yn 1875 dewiswyd ef yn flaenor ac fe ysgrifennodd lyfr hwylus ar hanes yr Eglwys.

Daeth ei waith yn y capel â Robert Parry i sylw ei gydweithwyr yn y chwarel fel na allent feddwl am well arweinydd nag ef yn nydd eu caledi.

Cyfnod isel ar lawer cyfrif oedd yr un a ragflaenai helynt 1874. Am y deng mlynedd cynt dywedir fod cyflwr y chwarelwyr wedi eu gorfodi i ofyn ffafrau gan y goruchwylwyr drwy lwgrwobrwyo. Ond fe ddaeth Robert Parry i arwain ei gydweithwyr o'u caethiwed.

Yn 1873 bu farw goruchwyliwr chwarel Dinorwig, sef Mr. T. Turner, a dewisodd y perchennog gyfreithiwr o Loegr i'w ddilyn. Y peth cyntaf a wnaeth hwnnw oedd gorfodi'r chwarelwyr i gadw at eu hamser yn well a chreai hyn anesmwythyd ymhlith y gweithwyr. Yn dilyn hyn cynhaliwyd pwyllgor gan chwarelwyr Dinorwig yn hen gapel yr Annibynwyr yng Nghwm-y-glo. Prif waith y cyfarfod hwn oedd ceisio ychwanegu at y cyflog i wneud iawn am weithio mwy o oriau. Ond enillodd yr oruchwyliaeth y blaen arnynt. Ar ddechrau 1874 codasant y cyflogau yn chwarel Dinorwig heb i'r gweithwyr ofyn am hynny. Nid oedd y chwarelwyr yn awr yn barod i fwrw'r pwyllgor heibio am eu bod yn credu mai eu dylanwad hwy oedd yn gyfrifol am y codiad cyflog.

Yn y cyfnod yma yr oedd sŵn Undebaeth yn y tir. Cyn hyn yr oedd chwarel Braich-y-cefn, Bethesda wedi rhoi cynnig ar ffurfio Undeb ond troes yn fethiant Yn Chwefror 1874 gwahoddwyd cynrychiolwyr o Ddyffryn Nantlle a Ffestiniog i Gwm-y-glo i gyfarfod â'r pwyllgor lleol. Pasiwyd i geisio ffurfio 'Undeb Chwarelwyr Gogledd Cymru'. Er bod Ffestiniog a Bethesda wedi bod â'u bryd ar ffurfio Undeb, i chwarelwyr Dinorwig y perthyn y clod am roi'r gwaith ar y gweill. Cynhaliwyd cyfarfod yng Nghaernarfon ar Fawrth 27ain, 1874 a dyma'r swyddogion a ddewiswyd: Morgan Richards (Llywydd); Hugh Pugh (Trysorydd); W.J. Parry (Ysgrifennydd) J.O.Griffith [Ioan Arfon] (Ymddiriedolwr); W.J.Williams (Archwilydd). Gyda'r canlynol ar y pwyllgor: J.J.Hughes, W.E.Williams, Robert Parry (Bethesda), Robert Parry (Llanrug), Robert Owen Jones (Ebeneser) ac Owen Jones, Cae Cerrig, Llanddeiniolen. Felly ffurfiwyd yr Undeb a dechreuwyd talu'r Undeb ym mis Ebrill 1874.

Dewiswyd Robert Parry yn Islywydd o'r dechrau. Cynhaliwyd Gŵyl Lafur gyntaf Undeb Chwarelwyr Gogledd Cymru yng Nghaernarfon ar yr 20fed o Fai 1876. Erbyn hyn yr oedd rhif yr aelodau wedi cynyddu i 7,460. Dywedwyd yno fod £150 000 yn fwy wedi eu talu mewn cyflogau yn chwareli gogledd Cymru nag yn ystod unrhyw flwyddyn cyn ffurfio'r undeb.

Ym mis Mai 1880, etholwyd Robert Parry yn Llywydd yr Undeb. Nid oedd ond 43 mlwydd oed pan fu farw wedi gwneud diwrnod ardderchog o waith dros ei gyd-chwarelwyr. Bu ei angladd ar ddydd Iau, Ionawr 3ydd, 1884, a chladdwyd ef ym mynwent yr Eglwys Llanrug. Dywedir fod dwy fil a hanner o bobl yn ei angladd.

Ar ôl ei farw casglodd ei gydchwarelwyr £100 er mwyn codi cofeb iddo. Dyma sydd ar y gofgolofn ym Moncan Bryn Llan: *Er serchog gof am Robert Parry, Pant Hyfryd, Ceunant. Bu farw Rhag 29ain 1883 yn 43 oed. Bu yn flaenor Eglwysig yn Ceunant am 10 mlynedd. Yr oedd yn un o sefydlwyr Undeb Chwarelwyr Gogledd Cymru, ac yn y swydd o Lywydd y bu farw. Cyfodwyd y golofn hon o barch iddo trwy danysgrifiadau y chwarelwyr a'i edmygwyr.*


*Gŵr dof, cyfeillgar difyr, - dewisawl*
*Dywysog Chwarelwyr;*
*Clod dau fyd mewn bywyd byr - enillodd,*
*A'i Dduw a'i galwodd at fuddugolwyr*
*(Alafon)*

Cafwyd y rhan fwyaf o hanes R.P. o draethawd gan y diweddar Owen Thomas, Min-y-rhos, a ysgrifennwyd ar gyfer Eisteddfod Capel M.C. Llanrug, 1944.

# NOSON FAWR YN NEINIOLEN



*Rex Williams, pencampwr byd 'billiards', yn cyflwyno cloc llechen wedi ei wneud yn lleol i Mr. Robert David Thomas, gofalwr y Llyfrgell yn Neiniolen.*



*Rex Williams ar ei ffordd i gwblhau y toriad o 131 yn y Llyfrgell yn Neiniolen. 'Roedd Rex yn defnyddio ciw newydd am y tro cyntaf. Meddai wrth ein gohebydd, "Mi gymrith wythnosau i mi ddod i arfer ag o, ond 'roedd yr hen un wedi gwisgo'n denau!"*

## MARGED UCH IFAN

ERS dyddiau Thomas Pennant y mae hanes yn cysylltu enw Marged Uch Ifan â Phen Llyn ond yn Nhelyrnia yn agos i'r Gelli yn Nyffryn Nantlle y treuliodd y rhan fwyaf o'i hoes.

Yno, nes y rhoddwyd gorau i gloddio am gopr yn y dyffryn, cadwai hi a'i gŵr, William ap Rhisiart, dafarn. Yna symudasant i Ben Llyn ac ymgymryd â chario'r copr a godwyd o'r mwynfeydd wrth droed yr Wyddfa a'i gludo mewn cwch o Lanberis i Ben Llyn.

*(Yr oedd hen wraig arall o'r un enw'n byw ym Mhen Llyn yn y 18fed Ganrif a blynyddoedd cyntaf y 19 Ganrif gan fod cofnod claddu yng Nghofrestr Eglwys Llanrug yn llawysgrifen y Parch. Peter Bailey Williams... Margaret ferch Evan Llwyncoed yn 91 mlwydd oed. Os nad hon oedd y Farged Uch Ifan enwog ymhle y claddwyd honno?)*

**HEN DDIHAREB**

**Pe buasai'r Wyddfa i gyd yn gaws**
**Buasai'n haws cael enllyn,**
**A Moel Eilian yn fara gwyn,**
**A Llyn y Cŵn yn gwrw melyn.**


**GORS BACH PANEL BEATING SERVICE**
**Cwm-y-glo**

**Ffôn : LLANBERIS 814**

**GWASANAETH TORRI-LAWR 24 AWR**

# CYMRU'N GALW'R ECO

### BRYSIWCH – NI FYDD LLE YN Y LLETY

MAE Pwyllgor Llety Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd wedi bod yn ffodus i logi nifer o hostelau myfyrwyr yn y ddinas ar gyfer wythnos yr Eisteddfod ym mis Awst y flwyddyn nesaf. Ond maen nhw'n cynghori'r sawl sy'n awyddus i gael lle yn yr hostelau fod angen brysio – mae cannoedd o'r 'stafelloedd wedi eu gosod eisoes – ac yn wir mae un o leiaf o'r hostelau eisoes yn llawn.

**Ar gael ar hyn o bryd mae nifer o fflatiau i bump o bobl (y rhain yn costio cyfanswm o £70 am yr wythnos). Mae hefyd yn bosibl cael gwely a brecwast mewn hostel am £5 y noson. Os ydych am sicrhau lle yn yr hostelau – neu yn un o westai'r ddinas, ysgrifennwch ar unwaith at y Pwyllgor Llety, Swyddfa'r Eisteddfod, 24 Windsor Place, Caerdydd. Teliffon: 0222 398316/7.**

### MEDDYGON CYMRU YN LLANBERIS

**AR Y penwythnos cyntaf ym mis Hydref, fe fydd y Gymdeithas Feddygol yn cynnal un o'i chynadleddau yng ngwesty'r Dolbadarn, yn Llanberis.**

Cymdeithas yw hon a ffurfiwyd rai blynyddoedd yn ôl i roi cyfle i feddygon i drafod pynciau meddygol trwy gyfrwng yr Iaith Gymraeg. Erbyn hyn, fe gafwyd darlithoedd ar bob math o bynciau astrus a thechnegol, ac y mae gan y Gymdeithas tua cant o aelodau. Fel rheol, fe fydd tua deugain o'r rhain yn mynychu pob cynhadledd, ac y mae llawer o'r aelodau yn dod â'u teuluoedd gyda hwy. (Ar brydiau, y mae'n ymddangos fel petai mwy o blant yn dod nag o feddygon!)

Cynhadledd ar bynciau amrywiol fydd hon, gyda phump darlithydd yn traethu ar ddefnyddio ymbelydredd mewn Meddygaeth, effeithiau andwyol gostwng tymheredd y corff, y berthynas rhwng Meddygaeth a'r Gwasanaethau Cymdeithasol, a rhai problemau ynglŷn â genedigaethau.

Wedi diwrnod caled o gynadledda ar y Sadwrn, yr ydym yn gobeithio cael Noson Lawen.

Fe fydd croeso i unrhyw feddyg (neu fyfyriwr mewn Ysgol Feddygol) i ymuno â'r Gymdeithas trwy ddod i'r gynhadledd a chyflwyno'i hunan i un o'r swyddogion yno.

### *APÊL AT FUDIADAU'R FRO RHAGLENNI I'N PLANT*

*CYNHALIWYD cyfarfod byr ar faes yr Eisteddfod Genedlaethol yn Wrecsam eleni i gychwyn ymgyrch i gynyddu'r oriau o raglenni teledu i blant a phobl ifainc hyd at 18 oed. Yn dilyn y cyfarfod penderfynwyd ar frys i wahodd cynrychiolwyr Mudiad Ysgolion Meithrin, Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru, Merched y Wawr, Cymdeithas yr Iaith Gymraeg ac Urdd Gobaith Cymru i gyfarfod pellach yn Swyddfa'r Urdd, Aberystwyth ar 10fed o Fedi. Yn y cyfamser cytunodd prif siaradwr cyfarfod Wrecsam, Dafydd Elis Thomas, A.S., i bwyso ar yr Ysgrifennydd Cartref, Y Gwir Anrhydeddus Merlyn Rees, A.S., i dderbyn dirprwyaeth i drafod posibiliadau cymorthdal brys er mwyn galluogi BBC Cymru a HTV Cymru i gynyddu eu darpariaeth i blant a phobl ifainc.*

*Adroddwyd yn y cyfarfod ar y 10fed o Fedi fod Mr. Rees wedi cytuno i dderbyn y ddirprwyaeth ar y 26ain o Fedi, a phwrpas y llythyr hwn yw gofyn i'ch mudiad ddanfon llythyr o gefnogaeth atom erbyn yr 22ain o Fedi os oes bosibl fel y medrwn brofi i'r Ysgrifennydd Cartref fod ein cais nid yn unig yn un taer a rhesymol ond ei fod hefyd yn unol â dyheadau nifer o fudiadau a sefydliadau eraill yng Nghymru sydd yn teimlo'r un mor angerddol na allwn oedi cyn ehangu'n sylweddol ar y ddarpariaeth bresennol.*

*Yn ogystal â'ch gwahodd i ddanfon llythyr o gefnogaeth, a chyhoeddi hynny yn y wasg os yn bosibl fe'ch gwahoddwn hefyd i gynnig unrhyw bwynt y tybiwch y byddai'n fuddiol i'r ddirprwyaeth ddwyn i sylw'r Ysgrifennydd Cartref. Gorau i gyd po gryfaf fydd ein hachos.*

*Yn ddiffuant,*
*Rhodri Williams.*


MODURDY MENAI



FFORDD CAERNARFON
Y FELINHELI

Ffôn : Portdinorwic 882
Perchennog : J. Evans


# CEWRI'R

Ysgwn i faint o'r pêl-droedwyr yma ydach chi'n gofio? Pery enwa
Diolch am yrru'r lluniau. Mae mwy ohonynt ym meddiant y go
Roberts, Llanberis am ei gymorth yn enwi rhai o'r chwaraewyr.



*TIM LLANBERIS TUA 1921*

*Rhes ôl: Ceris Ap Owen; Hogia'r Rhelfa. Y Rhes Ganol: Teddy Buck, Dan Robes, Elis Tudur Roberts. Rhes Flaen: Wil Davies, Robin Bach, W.J. Evans (Aberfan, myfyriwr yn y Coleg Normal), Wmffra Closs, Twm Bach.*

*Y llun trwy garedigrwydd Mrs. Mair Roberts, Cheadle.*



*TÎM PÊL-DROED GLASGOED 1931-32*

*Chwith i'r dde yn sefyll: Orwig Roberts; Harry Williams; Johnnie Griffith; Buckley Parry; Tom Alun Roberts; Richard Evan Pritchard. Yn eistedd: John Glyn Jones; William Hugh Parry; Emyr Williams. Eistedd ar lawr: Bobby Roberts; Hughie Williams; Ffoulk Roberts; William John Roberts; Alun Thomas.*

*Y llun trwy garedigrwydd Mrs. Sarah Roberts, Rhos Rug, Llanrug.*



*TÎM CROSVILLE CAERNARFON TUA 50 MLYNEDD YN ÔL*

*Yn chwarae ar gae Glasgoed. Yn sefyll: Johnnie (Mechanic); Arthur Roberts, Moss; Guto Bach; Jack Griffith (Inspector); Rhes Ganol: T.G. Roberts; Jos Hughes; Arthur Thomas. Yn eistedd: Richard Jones (Dic Peris); Price Bach; Evan Peris; Griffiths Bach; George Davies.*

*Y llun trwy ganiatâd Mr. Jos Hughes, Y Rhyl (gynt o Bodifor, Llanrug)*

# BÊL GRON

ı rhai ohonynt ar gof a chadw yn y fro tra phery'r gêm gael ei chwarae. ygydd — cânt hwythau yn eu tro weld golau dydd. Diolch i Mr. John



*TÎM LLANBERIS TUA 1925*

*Rhes ôl: John Coed (Warden St.); Jack Bach; Guto Thomas; Huw Bach Clegir Moss; Guto John (Snowdon). Yn eistedd: Dafydd Davies; Twm Rowlands; Jack Wheldon. Rhes flaen: O.R. Jones; Wil Davies (Llainwen); Robin Bach; Ellis Williams (Penceunant); Jack (Ship).*

*Gyrrwyd 2 lun o'r tîm yma gan ddwy o ferched, sef Mrs. Eurwen Parry Llanberis a Mrs. Mair Roberts Cheadle.*



*TÎM PÊL-DROED GLASGOED 1909–10*

*Oes rhywun yn adnabod y chwaraewyr yma? Y llun trwy garedigrwydd Mr. Griff Roberts, Llanrug.*



*TÎM LLANBERIS*

*Tîm Llanberis mewn cystadleuaeth arbennig yn 1959. Hwy enillodd y rownd derfynol 2–1 yn erbyn Ysgol Brynrefail.*
*Yn sefyll o'r chwith i'r dde: Harri Parry, W. Roberts, Idwal Roberts, Eurwyn Roberts, Y diweddar Leonard Roberts, Evan Owen, Gwilym Elis Pritchard, y diweddar Robin Williams. Rhes flaen: Huw Pritchard, Evan Wilson Hughes, Moi Pritchard, Wilbert Davies, Emrys Owen, Glyn Roberts, Richard Jones.*

*Y llun trwy garedigrwydd Mrs. Blodwen Roberts, 21 Dôl Elidir, Llanberis.*

# Y GŴR GWADD

**Croeso i golofnau'r *Eco* i Mr. Roy Owen, Darpa Ymgeisydd y Blaid Geidwadol dros etholaeth Arfon.**

**Ganwyd Roy Owen yn Nhremadog yn fab i heddwas y pentref. Addysgwyd ef yn Ysgol Tremadog, Ysgol Ramadeg John Bright Llandudno, Y Brifysgol Agored ac Ysgol Rheol Busnes Y Gogledd Orllewin, St. Helen's. Mae ganddo radd BA mewn Gwleidyddiaeth ac Economeg, MBIM (aelod o Gymdeithas Rheolaeth Brydeinig) MIns.Ex. (Aelod o'r Gymdeithas Allforio) ac mae'n Gynghorydd ar Fwrdeisdref Aberconwy.**

**Yn Neganwy y mae cartref presennol Mr. Owen ac mae'n gweithio fel Archwiliwr Cyfrifon Rheolol gyda'r Banc Buddsoddi Ewropiaidd. Mae'n grwydrwr heb ei fath. Mae wedi ymweld â Chyfandiroedd America, Ewrob, Affrig, Awstralia ac Asia.**



Y flwyddyn diwethaf cefais gyfle i ymweld â chanolbarth yr Affrig, yn bennaf i daflu llygaid dros gyfrifon datblygiad i gloddio am gopr yn Nhalaith Shaba o wlad Zaire; cofiwch i'r dalaith hon fod yn enwog iawn yn y pum degau fel Katanga. Bu ymladd hynod o greulon yno pan fynnodd y dalaith ei hannibyniaeth oddi wrth y Congo unedig. Yn wir yr oedd y sefyllfa mor ddrwg nes i Gynhulliad Cyffredinol y Cenhedloedd Unedig yrru brigâd o filwyr o Iwerddon yno i geisio tawelu'r sefyllfa. Yn anffodus, methiant fu eu hanes a bu rhaid iddynt ddychwelyd gartref ond nid cyn i ddwsin ohonynt gael eu lladd a'u crogi ar fachau cig mewn ffenestr siop cigydd mewn tref o'r enw Likasi. Profiad trist oedd i mi sefyll y tu allan i'r siop hon ac edrych ar y plât bach pres sydd yn dathlu'r digwyddiad dychrynllyd hwn.

Anodd yw credu fod y fath greulondeb yn natur y Sairois; y peth cyntaf sylwais arno ar ôl i'r awyren lanio ar faes awyr Lubumbashi oedd y wên barhaol sydd ar wynebau y bobl hapus hyn ac mor awyddus oeddynt i fod o wasanaeth. Ceir cryn anhawster gan yr estron i ymddiddan gyda'r brodorion o achos y cymysgedd o ieithoedd maent yn eu defnyddio. Yr iaith swyddogol yw Ffrangeg; iaith y rhan fwyaf o'r brodorion yw Swahili ond mae cynnydd sylweddol yn ymarfer yr iaith gymysg Lingala, ffaith sydd wedi ei achosi gan y llywodraeth yn hyrwyddo mewnlifiad o frodorion y taleithiau Kasai Occidental a Kasai Oriental sydd yn gorwedd i Ogledd y wlad. Gweithredwyd y mesur hwn gan y llywodraeth yn y brif ddinas Kinshasa, sydd wrth law tua mil o filltiroedd i ffwrdd, i wahanu y galw am annibyniaeth sydd yn parhau ymysg brodorion Shaba. Y rheswm dros yr alwad am annibyniaeth yw fod Shaba, fel talaith, yn gyfoethog dros ben mewn adnoddau naturiol a mwyafrif helaeth o weddill Zair yn hynod dlawd.

Mae gwahaniaeth rhwng y Zairois sydd yn trigo yn y trefyd a'r rhai a drigant yng nghefn gwlad yn amlwg dros ben yn enwedig yn eu safon byw ac yn eu disgwyliadau o fywyd. E enghraifft, mae y tai mewn tref fe Lubumbashi yn hynod foethus chysurus gyda phob cyfleustera megis pyllau nofio ag ati, ond dim ond pymtheng milltir tu allan i'r dref fe welwn bentrefi o fwd chronglwydi gwellt yn cysgodi gwmpas y bryniau morgrug enfawr sydd yn nodwedd o'r tirlun. Cwympa rhai yn ystod tymor y glawogydd a rhaid eu hail adeiladu rhwng gwawr a nos. Yn naturiol felly, ni edrychai'r bobl hyn ymlaen at y cyfnod o fis Hydref hyd fis Mawrth pan ddisgyn y glaw yn ddi-baid.

Ar un achlysur, fe ymwelais â phennaeth pentref cefn gwlad gydag un o swyddogion Gecamine, cwmni a elwid gynt yn Union Miniere du Katanga, am fod y pennaeth yn hawlio iawndal gan y cwmni am amhariad ffrwydro y cloddio ar gynnyrch ieir y pentref. Yng nghanol y cyfarfod, ymddiheurodd y pennaeth fod rhaid iddo ein gadael i fynychu angladd baban gŵr o'r pentref a 'doedd gan y tad ond hanner awr oddi wrth ei waith i gladdu'r plentyn. Yn ein diwylliant ni, mae hanner awr i gladdu mab yn anhygoel fyr, ond pan gefais gyfle i holi y tad ynghylch hyn, ei ateb oedd fod hyn yn hen ddigon am ei fod yn colli cyflog, a pheth arall, ni fuasai ef a'i wragedd yn cymryd fawr o dro i greu mab arall. Y wers i mi oedd fod bywyd dynol yn hynod rad, ond camgymerais, oherwydd ychwanegodd y tad y byddai'r sefyllfa yn hollol wahanol petai y taid neu'r nain wedi marw. Felly parch ac anrhydedd i'r henoed a llawer llai i blant. Cyferbyniad croes, efallai, i ddiwylliant Prydain ac Ewrop.

Profiad pleserus dros ben oedd cerdded yn yr ardd a thynnu banana neu 'pine apple' oddi ar y brigyn, oll yn rhad ac ddim! Dim llawn mor bleserus, ond efallai mewn adolygiad yn fwy digrif oedd troi yn ôl i'm gwersyll un noswaith ar hyd llwybr yn y jyngl, clywed sŵn chwyrnu dwfn, a dod wyneb yn wyneb â chlamp o lew yn gorwedd yn swrth ar draws y llwybr, ond stori arall yw honno...

# NANT PERIS

**CYDYMDEIMLAD** – Dymunwn fel ardal ddatgan ein cydymdeimlad dyfnaf â Mr. a Mrs. Owen Wyn Williams, Tan-y-Bryn gynt; yn eu profedigaeth o golli eu bachgen bach yn ddwyflwydd a hanner oed. Cafodd gystudd hir a gwnaethpwyd pob ymdrech i'w adfer. Derbynied y teulu i gyd ein cydymdeimlad, yn enwedig y rhieni ifanc a thaid a nain Tan-y-Bryn. Dywedodd un bardd fod:
"Nef wen yn amgenach
Na helynt byd i blant bach."

**DYMUNIADAU DA** – a llongyfarchion i Glyn Williams, Glyn Peris a Hefin Jones, Grove House, Llanberis ar eu llwyddiant yn eu harholiadau yn yr ysgol. Mae Glyn wedi dechrau gweithio gyda chwmni o adeiladwyr a dymunwn iddo bob llwyddiant yn ei waith.

Er mai yn Llanberis y mae cartref Hefin, yma yn y Nant y mae yn aelod. Deallwn ei fod yn bwriadu ymuno â'r Llynges Fasnachol; pob llwyddiant iddo yntau.

Dim ond un o'r Nant oedd yn dechrau yn Ysgol Brynrefail y tymor yma, sef Rita Jones. Bob llwyddiant Rita yn dy ysgol newydd. Deallwn fod Glenys wedi gadael yr ysgol a dymunwn yn dda iddi hithau yn ei gwaith. Dim ond Trefor oedd yn dechrau yn Ysgol Dolbadarn o'r Nant a deallwn ei fod yn setlo i lawr yn iawn. Hwyl fawr Trefor.

Ein dymuniadau gorau i Anne C. Williams, Tan y Bryn sydd wedi gadael y Nant i weithio yn Efrog. Chwith colli ei sirioldeb a'i gwên o'n plith. Pob bendith Anne.

**COLLI TEULU** – Yn ystod y mis ymadawodd teulu 5 Glanrafon am Efrog i'w cartref newydd. Dymunwn y gorau i Mr. a Mrs. B. Cooper yn eu cartref newydd. 'Roedd David a Katie wedi dod yn bur hyddysg yn y Gymraeg. Teimlir chwithdod ar eu hôl.

**YN GWELLA** – Da gennym ddeall fod Mrs. J.M. Williams, Pennant yn gwella ar ôl triniaeth lawfeddygol yn Ysbyty Môn ac Arfon, ond gyda gofid y clywsom am ei phrofedigaeth o golli ei mam wedi cyrraedd yr oedran teg o 91. Gwyddom i gyd am ofal tyner a diflino Mrs. Williams am ei mam tra bu yn byw yma ar aelwyd Pennant. Derbyniwch fel teulu ein cydymdeimlad dyfnaf â chwi yn eich profedigaeth, a mawr hyderwn y cawn eich croesawu chwithau Mrs. Williams adref yn ôl yn fuan wedi cael gwellhad llwyr.

**CYDYMDEIMLAD ETO** – Yn rhifyn diwethaf yr *Eco* yr oeddym yn llongyfarch Mrs. Janet S. Jones, Elidir ar achlysur ei phenblwydd. Y tro yma datgan ein cydymdeimlad a wnawn â Mrs. Jones a'r tri mab a'u teuluoedd ar golli priod, tad a thaid y wyrion a'r wyresau. Gadawodd Mr. Wm. Searell Jones y fuchedd hon ar y 15fed o Fedi. Daeth yma yn fugail i Lwyn Bedw yn 1913 a threuliodd Mrs. Jones ac yntau eu bywyd priodasol, bron i 65 mlynedd, yn y Nant. Symudodd o Lwyn Bedw i Gwm Elidir Uchaf ac oddi yno i'r Fron, ac fel Searell Jones y Fron yr adweinid ef gan bawb. Bu yn flaenor yn Rehoboth am dros ddeugain mlynedd ac yn gynharach eleni cafodd ei anrhydeddu am ei ffyddlondeb i'r Ysgol Sul pan dderbyniodd Fedal Gee. Cyfrannodd yn helaeth i fywyd Capel Rehoboth, nid mewn arian yn unig, ond trwy ei ffyddlondeb, ei arweiniad, a'i wasanaeth i bob peth ynglŷn â'r Eglwys. Daliodd yn ffyddlon hyd ychydig o flsoedd yn ôl pryd yr aeth llesgedd a gwendid corff yn drech na'r awydd am 'y pethe'.

Rhoddwyd ei weddillion i orwedd ym mynwent y Nant ar yr 17eg o Fedi a gwasanaethwyd yn ei angladd yn y Capel a'r fynwent gan y Parchedigion John Owen, Rhuthun bellach, W.O. Roberts, Llanrug a Tudor Davies,



Bangor. Gwasanaethwyd wrth yr organ gan Mr. Huw Peris Pritchard, Llanberis. Credaf y gellir dweud er na ddaw ein diweddar gyfaill byth yn ôl na fydd chwaith wedi mynd oddi yma. 'Roedd yn rhan o'r Nant a gedy fwlch mawr ar ei ôl. Ein hangen yn y Nant heddiw yw cael rhai i 'Sefyll yn y Bwlch' sydd yn cael ei dorri wrth golli cymeriadau fel hyn. A gawn ni, bob un ohonom ddweud fel Hogia'r Wyddfa:
"Safwn yn y Bwlch".

**FFAIR NANT** – Ai dyma y tro olaf y cynhelir rhywbeth a fu yn sefydliad ym mywyd y pentref? Dim ond un gwerthwr, un gorlan o ddefaid, ugain ohonynt a bachgen ifanc 16eg oed yn cynnal yr hen ffair. Go dda Elfyn am gadw'r ffair am eleni beth bynnag.

**YN YR YSBYTY** – Drwg gennym ddeall fod Mr. Arthur Roberts, Gwyndy wedi ei gymryd i Ysbyty Môn ac Arfon. Mawr obeithiwn na fydd ei arhosiad yn un maith ac y bydd yn teimlo yn llawer gwell pan ddaw gartref unwaith eto.

**AR Y RADIO** – fore Sadwrn clywsom lais Perisfab ar y rhaglen 'Dros fy Sebctol' gyda John Roberts Williams. Llongyfarchiadau ar y sgwrs ddiddorol.

## LLYTHYR O AWSTRALIA

*6 Oakwood Ave.,*
*Dandenong,*
*3175,*
*Melbourne,*
*Victoria.*

*Annwyl Olygydd,*


*Dyma fi unwaith eto yn anfon gair i* ***Eco'r Wyddfa.*** *Meddwl yr oeddwn a oes rhywun wedi meddwl am waith Twm Eban, Stabla?* *'Rwyf yn siŵr y byddai yn dda iawn cael ei hanes a'i farddoniaeth. Mae gennyf fi dipyn o'i waith.*

*Yr eiddoch,*
*Helen Ireland.*

## ECO'R WYDDFA TRWY'R POST

*Cysylltwch â*
**Selwyn Williams,**
*(Trefnydd Gwerthiant)*
**Cartref, Stryd yr Orsàf, Llanrug.**
*Caernarfon 3577.*

## GWELLIANT MAWR YN BAROD



*Dim ond lle bu hofelau Stryd Goodman, Llanberis.*

## LLENWI PWLL MOELYN A RWBEL DINORWIG

Mae'r BCCT wedi cytuno i gais gan Bwyllgor Maes Chwarae Pwll Moelyn am iddynt ddefnyddio rwbel o gynllun trydan Dinorwig i lenwi Pwll Moelyn, Llanrug.

Ar hyn o bryd mae loriau'n cario gro o chwarel Graeanog, Bryncir, i Ddinorwig, ac yn dychwelyd i Fryncir yn wag. Mae Mr. Trevor Williams gyda sêl bendith Mr. Iorwerth Ellis, wedi trefnu i ambell un o'r loriau hyn gario'r llwythi rwbel i'r pwll a hynny yn gwbl ddi-dâl.

Mae Pwll Moelyn wedi ei weddnewid gan y gwaith a wnaed eisoes a bydd cymorth caredig y BCCT yn hwb mawr i'r fenter leol hon.



*Rhaid iti ddeud – ma' gynno fo*
*ARDDULL*

**Wedi ei ysgrifennu yn ystod yr Ail Ryfel Byd**

**TARO TANT**
**gan Hugh Parry Williams**
**(Hen Bar) Cwm-y-glo**

**Wrth edrych yn ôl i'r gorffennol,**
**Ychydig flynyddoedd mae'n wir,**
**A dwyn i gof yr hen aelwyd,**
**N'ad â byth yn angof yn hir,**
**Y cartref i'm golwg fel palas**
**A'i gwpwrdd nas gwelwyd yn llwm,**
**A'm gwraig, fel y plant, oedd yn meddwl**
**Mai nefoedd fach inni yw'r Cwm.**

**Fel miloedd o fechgyn gwnes innau**
**Ymuno fel milwr i'r gad,**
**I fyw, neu i farw fel gwron,**
**I ymladd yn ddewr dros fy ngwlad,**
**Gan feddwl wrth 'mado â chartref**
**Na fyddwn i fawr gyda'r drwm,**
**Y cawn ddychwelyd yn fuan**
**I aelwyd fach ddedwydd y Cwm.**

**Mae llawer o fechgyn yr ardal**
**Mor hardd ag yw blodau y ddôl,**
**Yn myned 'run modd a gwnes innau**
**Ychydig flynyddoedd yn ôl**
**Rhai'n myned dan ganu a dawnsio**
**Ac arall â'i galon yn drwm**
**A phob un yn cario'r un meddwl –**
**Dod adref yn ôl i'r hen Gwm.**

**Aeth Emlyn a Stanley a Gwilym**
**Tri llencyn ystwythgryf ac iach,**
**A Glyndwr a'i frawd Richard Thomas**
**A churwr y drwm, Harri Bach,**
**Bob Edward, Dick Roberts Dôl Afon**
**A Morgan ap Morgan Bryn Crwn**
**A Iorwerth Rallt Goch a John Williams**
**'Does debyg i hogia'r lle hwn.**

**Mae Ifor yr Aber yn filwr**
**Ac Aled bach Terrace yn wir**
**Ac Owen Glyn Davies, gwnaeth yntau**
**Ei orau, ond methodd yn glir,**
**Ei dri brawd, Wil, Dafydd a Robert**
**Ac Idwal, maent hwythau yn drwm**
**Er wedi 'mado, hŷd eto**
**Mae'r galon yn curo'n y Cwm.**

**Yn llencyn aeth Wil Ffowc y Stesion**
**Ac Alun Hughes, bechgyn bach llon,**
**A methu â llwyddo wnaeth Ellis**
**I fynd gyda'r llu dros y don,**
**A Russell, un hoffus a thawel,**
**Wil Sam a'i gerddediad yn drwm,**
**Bydd gwae i'r hen Goering a Hitler**
**Pan ddeuant ar draws hogiau'r Cwm.**

**Tri arall o frodyr ymunodd**
**Noa Parry a Robin a Siôn**
**A Roy a Ted Morris, dau fachgen**
**Amdanynt mae cymaint o sôn.**
**Haw Haw fydd yn crafu ei glustiau**
**Ac oni fydd Goebbels yn llwm?**
**Ond Chamberlain glywir yn gwaeddi**
**"Ardderchog, chwi fechgyn y Cwm."**

**Nid oedd yr un pentref yng Nghymru**
**Y rhyfel diweddaf a fu,**
**Wnaeth anfon cynifer o filwyr**
**A ddarfu ein pentref bach cu.**
**Wrth gofio am rai, mae fy ngruddiau**
**Yn llaith, O, a'm calon yn drwm,**
**Ond engyl a wylia y llecyn**
**Lle gorwedd dewr fechgyn y Cwm.**


**CYMDEITHAS YR IAITH GYMRAEG**

**CYFARFOD CYFFREDINOL**

yn Neuadd Talybont (ger Aberystwyth)
nos Wener 14eg o Hydref am 7.30 p.m.
a dydd Sadwrn
y 15ed o Hydref am 10.30 a.m.
(Adloniant i ddilyn)
Cynigion pwysig i'w trafod
a'u
GWEITHREDU

# WAUNFAWR

**SASIWN GENHADOL CHWIORYDD HENADURIAETH ARFON** – Cynhaliwyd y sasiwn yng Nghapel Bethel (MC) brynhawn a nos Fercher, Medi 7, a chafwyd cynulliadau lluosog. Llywyddwyd y cyfarfodydd gan Mrs. M. Morgan Jones, Croesywaun a Mrs. E.A. Williams, Y Felinheli. Cymerwyd y rhannau arweiniol gan Mrs. E. Thomas, Ceunant a Mrs. J.D. Roberts, Caernarfon. Anerchwyd cyfarfod y prynhawn gan y Parch. John Evans, Nefyn ac un y nos gan y Parch. John Tudor, sydd gyda'i wraig, Dr. Nerys Tudor, yn genhadon yn Taiwan. Arweinydd y gan oedd Mrs. Davies, Rhyd-ddu a'r organydd oedd Miss Eirlys Jones, Waunfawr. Diolchodd Miss K. Jones, Bangor i bawb a gymerodd ran yn y ddau gyfarfod ac i'r rhai a fu'n trefnu ymlaen llaw ac yn helpu yn ystod y dydd.

**CAPEL CROESYWAUN** – Cynhaliwyd Noson Goffi lwyddiannus yn y Festri ar Fedi'r 8 a chafwyd elw sylweddol i gronfa'r adeiladau. Swyddogion y pwyllgor a fu'n trefnu oeddynt Llywydd: Mrs. M.O. Parry Williams, Gwynfa; Trysorydd: Mrs. W. Evans, Lleifior; Ysgrifennydd: Mrs. David Jones, Lynfod.

**EISTEDDFOD YR ARDAL** – Cwblhawyd y trefniadau ar gyfer yr eisteddfod a gynhelir yng Nghapel Croesywaun ddydd Sadwrn, Tachwedd 12. Mae'r rhaglen testunau ar werth yn y siopau a gan yr ysgrifennydd, Mrs. Marion Iwan, Penyberth. Bydd Noson Goffi yn Neuadd yr Eglwys, nos Wener Hydref 7 i godi arian at yr eisteddfod.

**EISTEDDFOD GENEDLAETHOL CAERNARFON 1979**– Nos Fawrth, Medi 13 bu'r pwyllgor lleol o dan lywyddiaeth Mr. Iolo Huws-Roberts yn ystyried gwahanol ffyrdd i gyrraedd y nod ariannol o £2,000 a osodwyd inni. Cafwyd amryw o awgrymiadau gwerthfawr a threfnodd y merched (Cadeirydd: Mrs. K. Wyn Jones, Bron Eifion; Ysgrifennydd: Mrs. Pat Parry, Ffridd Felan) Noson Goffi yn Neuadd yr Eglwys, nos Wener, Hydref 14. (Mynediad i mewn: 20c.) Bydd y pwyllgor nesaf am 7.30 yn yr Ysgol, nos Fawrth, Medi 27ain.

**CLWB Y MAMAU A'R GWRAGEDD IEUAINC** – Cychwynnodd y tymor newydd gyda chyfarfod yn yr ysgol ar nos Iau, Medi 8. Croesawyd yr aelodau newydd gan y llywydd, Mrs. Rose Ann Hughes, Tref Eilian, a hysbyswyd fod rhaglen lawn a diddorol wedi'i threfnu ar gyfer y tymor.

**SEFYDLIAD Y MERCHED** – Llywyddwyd cyfarfod mis Medi gan Mrs. H. Morfa Evans, Preswylfa a chafwyd sgwrs ddiddorol ac adeiladol gan Mr. Rhodri Prys Jones ar ei waith yn Archifdy Cyngor Sir Gwynedd yng Nghaernarfon. Diolchwyd iddo gan Mrs. Doris Roberts, Dwyros. Enillwyd y raffl ( a roddwyd gan Mrs. A. Thomas, Haulfryn) gan y llywydd. Rhoddwyd y blodau gan Mrs. Catherine A. Jones, Bryn Gwenallt. Disgwylir i'r aelodau enwebu rhai ar bwyllgor 1977/78 yn y cyfarfod nesaf.

**YR AELWYD** – Bydd yr Aelwyd yn dechrau ar ei thymor newydd ar Hydref 4 gyda pharti o Aelwyd Ysgol Eifionydd, Porthmadog. Edrychir ymlaen am flwyddyn amrywiol iawn ac y mae croeso i'r bobl ifanc yn Neuadd yr Eglwys ar nosweithiau Mawrth am 7.30.

**YR YSGOL FEITHRIN** – Cyflwynwyd siec gan drysorydd yr Ysgol Feithrin i drysorydd cronfa leol yr Eisteddfod Genedlaethol; arian ydoedd wedi ei godi ar fwrdd arbennig yng ngharnifal blynyddol yr ysgol. Anfonwyd rhodd o £15 i Gronfa John Ellis Pritchard, Caeathro, a arferai fod yn ddisgybl yn yr ysgol.

**CLWB GWYRFAI** – Cyfarfu pwyllgor y clwb yn Neuadd yr Eglwys ddydd Iau, Medi 15, o dan lywyddiaeth y ficer, y Parch. E. Trefor Jones. Hysbysodd yr ysgrifennydd, Mrs. M.O. Parry Williams, Gwynfa ei bod wedi sicrhau siaradwyr ar gyfer y cyfarfodydd bron i gyd. Gorffennwyd trefnu'r rhaglen. Bydd y cyfarfod cyntaf ar Hydref 6, y cinio blynyddol ar Ragfyr 15 a'r Ffair Wanwyn ar Fai 4.

**Y CYNGOR CYMDEITHAS** – Galwyd cyngor arbennig i ystyried dau lythyr oddi wrth Gyngor Gwynedd; un eisiau barn y cyngor ar bedair ffordd o ddelio a thrac yr hen "Reilffordd yr Ucheldir" a'r llall yn gofyn am wybodaeth am lwybrau'r plwy ar gyfer archwiliad gan y Cyngor Sir ar lwybrau'r sir i gyd. Penderfynodd y Cyngor mai rheilffordd yr holl ffordd o Borthmadog i'r Dinas neu Gaernarfon oedd y ffordd orau i ddelio â'r trac yn hytrach na llwybr, neu ran o'r trac yn llwybr a'r gweddill yn reilffordd. Wrth ymdrin â'r llwybrau pasiwyd i ofyn i Aelodau Cyngor Cymdeithas Betws Garmon a fuasent yn barod i ystyried awgrymu i'r Cyngor Sir fod y trac o Bont y Stesion i Danrallt yn cael ei gofrestru fel llwybr cyhoeddus.

**LLWYDDIANT** – Llongyfarchiadau i Mr. Frederick Troughton, Pant Gwyn ar ei lwyddiant yn ennill gradd A yn arholiad Cymraeg Safon 'O'. Daeth Mr. Troughton i fyw i'r Waunfawr o Coventry rhyw dair blynedd yn ôl, a bu'n aelod o ddosbarth Cymraeg i ddysgwyr yn y pentref.

Bwriedir cynnal dosbarthiadau yn ystod y gaeaf eto eleni. Ceir rhagor o fanylion gan Mrs. Gweneirys Jones, Cartrefle.

Llongyfarchiadau hefyd i Michael Wyn Jones, Benallt ar ei lwyddiant yn arholiad y Cyd-bwyllgor Addysg. (Yr oedd enw Michael ymhlith enwau disgyblion Ysgol Syr Hugh Owen y mis diwethaf, ond rhywsut rhywfodd yn rhywle ar ei daith i'r *Eco* fe lithrodd allan!)

A llongyfarchiadau i Nesta Griffiths, Eirianallt ar ei llwyddiant hithau yn ei arholiad Cerdd.

**DYMUNIADAU GORAU** – i Miss Nia Einir Jones, Rhoslan yng Ngholeg Cerdd a Drama Caerdydd, i Mr. John Huws Roberts, Pant Teg yn y Coleg yn Lerpwl ac i Mr. Adrian Roberts yn ei waith yn Ysbyty Bryn-y-Neuadd.

**LLONGYFARCHIADAU** – i Mr. a Mrs. Robert Williams, Hafod y Rhug Uchaf (Miss Bethan Jones gynt) ar enedigaeth mab – Ceirion Rhys Williams.

Hefyd i Mr. a Mrs. Edgar Owen, Grug y Mynydd (Carys Thomas gynt) ar enedigaeth geneth, Elain Medi.

**YN YR YSBYTY** – Y mae'n ddrwg gennym ddeall fod ein nyrs, Mrs. Mair W. Williams, 17 Bro Waun yn wael yn yr ysbyty. Dymunwn iddi adferiad buan.

**O'R YSBYTY** – Dyna hanes Mrs. Gwen E. Oliver, 8 Bryn Golau; Mrs. T. Williams, 21 Bro Waun; Mr. Peter J. Evans, Preswylfa; Jason Evans, 7 Dolerddi. Dymunwn iddynt hwythau wellhad llwyr.

**CYDYMDEIMLWN** – â Mrs. Rhian Ellis, Glyn Awel yn ei phrofedigaeth o golli ei thad yn frawychus o sydyn, ac â Mr. William Daniels, Cynlas ar farwolaeth ei frawd.

**DOSBARTHIADAU CYMDEITHAS ADDYSG Y GWEITHWYR** – Dosbarth Arlunio (Mrs. B. Mansel Owen) ar nosweithiau Gwener a Dosbarth ar Hanes Lleol (Mr. Rhodri Prys Jones) ar nosweithiau Llun bob yn ail a'r Gymdeithas Undebol. (Gwel. Dyddiadur y Mis).

# GWEITHWYR MWYNFEYDD HAEARN BETWS GARMON

gan E. Hughes (Arwel gynt)
Bryn Hyfryd, Groeslon



**DARLUN yw hwn o weithwyr gwaith haearn Betws Garmon. Mae wedi cau ers blynyddoedd, ond mae'r tyllau i'w gweld heddiw ar ochr Moel Eilian. Ni allaf ddweud pryd y tynnwyd y llun yma, hogan ysgol oeddwn y pryd hynny (79 rwan), felly fe welwch fod hwn gryn amser yn ôl.**

Gweithio o dan y ddaear y byddent, a'r haearn yn cael ei gario mewn cafnau ar "wire rope" dros y mynydd i Lanberis. Yna ei ddadlwytho i dryciau y rheilffordd i fynd ag o i Wolverhampton i gael ei drin. Mae yna stori yn cael ei dweud am ŵr o Lanberis a oedd yn gweithio yn y gwaith haearn a geisiodd fynd adref ar un o'r cafnau, ond pan ar ganol y mynydd, fe safodd y cafn, a bu raid i'r dyn fod yno hyd y bore! Pan ailddechreuodd y gwaith ni fedrai ddod oddi yno gan ei fod mor uchel oddi wrth y ddaear.

Nid wyf yn meddwl fod yna un sydd yn y darlun yma yn fyw heddiw. Y gŵr yn y canol hefo'r bag yw'r diweddar Mr. John Thomas, Bryn Melyn, Waunfawr. Gobeithio y bydd y llun yma o ryw ddiddordeb i rywun.

# DAU AM BRIS UN

**MAE gan Theatr Cymru gynllun newydd sbon i ennyn diddordeb dysgwyr yn y perfformiadau Cymraeg.**

Yn ystod y daith o 'Saer Doliau' a 'Doll Doctor' geill dysgwyr weld y ddau berfformiad am bris un. Bydd modd, felly, i ddysgwr ddeall y ddrama'n llawn yn Saesneg, ac wedyn ei chlywed yn Gymraeg. Neu, os dymuna, gall ei gweld yn Gymraeg i ddechrau, a phrofi ei allu i ddeall trwy ei gweld wedyn yn Saesneg.

Dywed llefarydd ar ran y Cwmni: "Cawsom gydweithrediad theatrau a threfnwyr lleol trwy Gymru i wneud yr arbrawf hwn, a gobeithiwn y bydd yn gaffaeliad i bawb sy'n dysgu'r iaith, ac yn ychwanegu at eu diddordeb ynddi."

Gweithredir y cynllun gan y Theatrau Newydd a'r Gwerthwyr Tocynnau ym mhob ardal, neu gellir anfon am fanylion at:

**Theatr Cymru, Stryd Waterloo, Bangor, Gwynedd.**


THEATR CYMRU

yn cyflwyno

SAER DOLIAU

Drama adnabyddus Gwenlyn Parry

BANGOR

Theatr Gwynedd

Dydd Mawrth, 11 Hydref, 7.30 p.m.

Tocynnau: Swyddfa Docynnau'r Theatr,
Bangor (51708)

£1 – gostyngiadau i bartion, plant a phensiynwyr

Gyda chefnogaeth Cyngor Celfyddydau Cymru
a'r Cymdeithasau Celfyddyd

# TAN-Y-COED

**GWIBDAITH** – Aeth Mamau, Athrawon a phlant Ysgol Sul Tan-y-Coed am wibdaith i Eirias Park, Bae Colwyn ddydd Mawrth Awst 23ain. Trefnwyd y wibdaith gan Mrs. Owena Parry, a chafwyd diwrnod hapus iawn, yr hin yn hafaidd a phopeth yn ddymunol a phleserus – y plant wrth eu bodd.

**PRIODAS** – Awst 27ain yn Eglwys Sant Beuno, Aberffraw priodwyd Carys Jones, Aberffraw ac Alan Thomas, unig fab Mr. a Mrs. Owen Wyn Thomas, 1 Tai Bryngwyn. Llongyfarchiadau a dymuniadau da'r ardal i'r pâr ieuanc. Erbyn hyn mae Mr. a Mrs. Thomas wedi cartrefu yng Nghaernarfon.

# LLYFRAU

**Moduro Gwynedd** gan Emyr Owen.

"Am y tro cyntaf erioed – llyfr moduro i'r Cymro sydd ar wyliau yng Ngwynedd," meddai'r rhagair i lyfr newydd Emyr Owen. Awn ymhellach – llyfr eithriadol o hwylus i fodurwyr sy'n byw yng Ngwynedd hefyd. Rhy Emyr Owen ddigon o ddewis o deithiau i chwi ymgymeryd â hwy drwy gyfrwng mapiau da, digon o luniau a chyfarwyddiadau manwl ynghyd â phytiau diddorol a gwerthfawr am wahanol fannau. Prynwch y llyfr ac ewch ag o gyda chi ar eich teithiau.

Cyhoeddwyd ac argraffwyd gan **Y Lolfa, Talybont. Pris: 85c.**

"Heyday in the Blood" a gyhoeddwyd yn 1936, yn cael ei chydnabod fel un o oreuon ei chyfnod. Gwnaeth Mair Closs Roberts gyfiawnder â'r gwreiddiol heb os.

**Tri Milwr a Dyrnaid o Bridd** gan Valere Depauw. Cyfrol o dristwch ac o lawenydd, o boen ac o gariad ydyw'r gyfrol hon o waith Valere Depauw. Mae'r rhyfel a'i erchylldra yn gefndir i'r bedair stori ond thema cariad ydyw'r llinyn arian sy'n rhedeg drwyddynt. Troswyd hwy i'r Gymraeg gan Mair Williams, Eirian Gruffydd a Mali Roberts.

Cyhoeddwyd ac argraffwyd gan **J.D. Lewis a'i Feibion Cyf., Gwasg Gomer, Llandysul.**

**LLYFRAU I**

**LYFRGELLOEDD YN UNIG**

**Bwrlwm Yn Y Gwaed** gan Geraint Goodwin. Cyfieithwyd y nofel hon o'r Saesneg gan Mair Closs Roberts. 'Roedd y nofel hon,

**Ond rhaid cofio mai llyfrau a gyhoeddwyd i Lyfrgelloedd yn unig ydyw'r rhain, ac fe fydd yn rhaid i chwi fynd i'w benthyca yn eich llyfrgell leol er mwyn eu darllen gan nad oes modd eu prynu yn y siopau llyfrau.**


## ANGEN LLYFRAU AIL-LAW

**Mae Siop y Pentan sydd wedi agor yn yr Hen Farchnad yng Nghaernarfon, angen stoc helaeth o lyfrau ail-law Cymraeg. Y bwriad yw cychwyn adran ail-law yn y Siop a fydd yn arbenigo ar feirdd a llenorion Sir Gaernarfon, ac hefyd llyfrau a argraffwyd yn nhre Caernarfon. Mae'r siop yn prynu llyfrau, cylchgronau, llythyrau, dogfennau, lluniau... yn wir UNRHYW BETH sydd yn ymwneud â bardd neu lenor (byw neu farw) o Arfon. Mi fydd angen llyfrau eraill, wrth gwrs, yn farddoniaeth, rhyddiaith, llyfrau taith, hanes etc. Os oes gennych hen lyfrau, beth am eu troi yn bres! Gellir galw yn y Siop neu ddanfon rhestr drwy'r post. Gallwn deithio i rywle i weld llyfrau. Mae'r siop hefyd yn cynnig gwasanaeth chwilio am lyfr. Os oes rhywun wedi bod yn chwilio am lyfr neu lyfrau ers blynyddoedd, ac wedi bod yn aflwyddiannus, beth am lenwi un o'n ffurflenni ffeil? Os daw i'n dwylo wedyn, i chi y bydd y copi hwnnw!**

SIOP Y PENTAN
7 YR HEN FARCHNAD
STRYD Y PALAS
CAERNARFON

Cardiau
Recordiau
Casetiau
Posteri
A Rwan............

YN EISIAU: Llyfrau ail-law o bob math, yn enwedig llyfrau gan feirdd a llenorion Sir Gaernarfon.

LLYFRAU

GALWCH HEIBIO.....NEU DANFONWCH AIR


# PWY BIAU'R BONT?

**MYNEGWYD llawer o bryder yn ddiweddar gan drigolion cylch Pontrhythallt, Llanrug ynglŷn â chyflwr adfeiliedig a pheryglus tair pont yn yr ardal. Pan gododd y cynghorydd Pat Larsen y cwestiwn o gyfrifoldeb tuag at eu hatgyweirio datgelwyd ffaith ddiddorol, sef bod un o'r pontydd yn ddi-berchennog.**

Dywedodd Awdurdodau'r Cyngor Sir mewn llythyr at Mrs. Larsen mai'r Bwrdd Rheilffordd Brydeinig sydd biau'r bont dros afon Seiont a'r bont dros y rheilffordd wrth ei hochr a'u bod wedi ysgrifennu at y Bwrdd i ofyn "iddynt atgyweirio'r waliau yn eu hadran hwy."

Chwarel Dinorwig oedd perchennog y bont dros yr hen reilffordd o Lanberis i'r Felinheli a dyletswydd y cwmni oedd ei chynnal. Ond pan ddiddymwyd y cwmni yn 1967 daeth terfyn hefyd i'w cyfrifoldeb am y bont.

Felly, y cwestiwn llosg ar hyn o bryd yw pwy sydd biau pont y relwe? Byddai'r ardalwyr yn falch iawn o weld y gwaith o'u hatgyweirio'n dechrau'n ddi-oed a byddai Cyngor Sir Gwynedd hefyd yn ddiolchgar am unrhyw wybodaeth gan nad oes hawl ganddynt i wario ar drwsio pont "sydd yn eiddo preifat".

# Agor Ffiniau'r Gorffennol

**gan Mary Lloyd Williams, BEM**



**Rhes flaen:** *Robert Closs Parry (tad); Ceridwen; Mrs. Ellen Parry (mam);* **Rhes uchaf o'r chwith:** *Ellis; Gwen; David; Ellen May; Wil; Johnny; Robert Closs.*

**Clywais fy nhad yn dweud y bu'r Nant Uchaf, Llanberis yn fagwrfa i hen deuluoedd hynod ac enwog gynt. Dyna deulu Abraham Williams, Y Cwm Glas, a Chadi ei chwaer, sef y ddynes gref honno; teulu Dafydd Jones, Y Garreg Wen Uchaf; teulu Griffith Jones, Llwynbedw a'i fab William a fu'n weinidog yn Rehoboth; a theulu'r Philipiaid hefyd, sef y Cantorion a'r Cerddorion a'r Arweinyddion.**

Bu teulu'r Closiaid hefyd yn adnabyddus a pharchus yn y cylch. Y mwyaf adnabyddus efallai oedd G.T. Closs, Llwyn y Brain, Llanrug.

Un arall o'r teulu hwn oedd Robert Closs Williams, Garreg Wen. Mentrodd gyda'i gar a'i geffyl dros y rhew ar draws Llyn Padarn yn 1895.

Yr oedd Robert Closs Parry, Tyn Pwll, Fachwen, hefyd yn perthyn i deulu'r Clossiaid, a'i frawd John Closs Parry, Bron Ceris, y ddau'n byw dros y ffordd i'w gilydd. Yr oedd gan Mr. a Mrs. Robert Closs Parry wyth o blant (gweler y llun). Dwy ferch yn unig sy'n fyw heddiw, sef Mrs. Gwen Owens, Llanrwst a Mrs. Ceridwen Williams, Gwelfryn, Llanrug.

Yr oedd gan Mr. a Mrs. John Closs Parry naw o blant. Un ohonynt sy'n fyw, sef Mrs. Myfanwy Hughes, Caradog Place, Deiniolen. Yr oedd mam y diweddar John Morris, Aberdaron yn ferch iddynt.

Y mae merch i Thomas Closs Parry, Garreg Wen, yn byw yn Nhalysarn sef Mrs. Mair Closs Roberts, ac wedi cadw ei hen gartref oedd yn Nant Uchaf. Y mae merch Mr. a Mrs. Roberts, Y Garreg Wen, Talysarn, sef Mrs. Elan Closs Stephens, yn Ddarlithydd Drama ym Mhrifysgol Cymru, Aberystwyth.

Diddorol yw sylwi mai John Closs oedd y cyntaf o'r teulu i ddwad i'r Nant Uchaf. Daeth yn Agent i'r Gwaith Copper yn 1760. Mae ei fedd yn y fynwent. Llanberis oedd hen enw'r Nant Uchaf a'r enw ar Lanberis fel y mae heddiw oedd Coed y Ddol.

Y mae Mr. W.J. Davies, (Gwilym Peris) wedi 'sgrifennu nofel ddiddorol yn sôn amDeulu'r Clossiaid Rhamant Eryri, 1920.

**Y BEIBL**

Byddai pob un o blant Robert Closs Parry yn derbyn Beibl ar ei benblwydd yn un ar hugain. Dyma'r pennill 'sgrifennodd ei thad ar Feibl Mrs. Ceridwen Williams:

**"Gair Duw" yn y galon**
**Beth bynnag dy ran**
**A'th ddwg yn ddiogel**
**I gilfach a glan.** R.C.P.

# Maes y Merched

**JELI MWYAR DUON**

**4 pwys o fwyar duon**
**sudd dau lemon** *neu* **1 llond llwy de o citric acid**
**¾ peint o ddŵr**
**1 pwys o siwgr i bob peint o sudd a geir o'r ffrwyth**

Rhowch mewn sosban gryf y dŵr, sudd lemon a'r ffrwyth wedi ei olchi. Gadewch i fud-ferwi nes bo'r ffrwyth yn feddal ac yn malu'n hawdd (rhyw ¼ awr).
Codwch y ffrwyth a'r sudd yn ofalus i fag jeli, neu, os nad oes gennych un o'r rhain, gosodwch stôl â'i thraed i fyny, a chlymu'n dyn i bob troed liain glân o wead clos. (Rhaid berwi'r lliain bob tro cyn ei ddefnyddio).
Gadewch i'r sudd ddisgyn i gostrel am ychydig oriau neu dros nos.
Wedi mesur y sudd ychwanegwch bwys o siwgr i bob peint a throi'r cymysgedd uwch gwres isel nes fod y siwgr wedi toddi ac wedyn uwch gwres eithaf uchel i ddod â'r jeli i bwynt setio mor gyflym ag sydd modd.
**Dau brawf setio:**
(a) plât oer; (b) caenu ar y llwy nes bo'r jeli yn disgyn yn ddarnau llydan.
Tynnwch y jeli oddi ar y gwres a chodwch ychydig ar y tro i botiau gwydr glân, cynnes. Tra'i fod yn dal yn chwilboeth rhowch ddisgiau cwyr ar wyneb bob un i'w gadw rhag dirywiad bacteria. Gorchuddiwch â seloffen a labelwch bob pot.
Mwynhewch y jeli dros y gaeaf!

---

Yn lle tarten fwyar dros y Sul, beth am ddefnyddio'r ffrwyth fel hyn i wneud 'gateau' addurniadol (mae'n hawdd!):

**1 gacen 'sponge' 7" ar ei thraws**
**¾ pwys o fwyar**
**3 llond llwy fwrdd o siwgr**
**3 llond llwy fwrdd o win melys neu kirsch**
**hufen chwipio a chnau.**

Gan ddefnyddio cyllell finiog torrwch allan o'r gacen 'cone' llydan o'r sponge. Gwnewch hyn drwy ddal y gyllell â'i blaen bob amser at ganol y gacen ac yn slantio'i lawr rhyw ychydig. (Dim ots os yw pen y 'cone' drwy waelod y gacen.) Trowch y cone â'i wyneb i fyny ar y bwrdd.
Rhowch waelod y gacen ar y plât gweini, a sociwch y 'sponge' â'r gwin. Cymysgwch hanner y mwyar duon a'r siwgr mewn dysgl a'u malu gyda chefn llwy. Rhowch hwn wedyn yn y gacen, gydag ychydig o'r hufen, nes fod y ffrwyth wedi llenwi'r twll.
Trowch y 'cone' yn ôl ar y gacen gyda'r ochr wedi ei thorri at i fyny.
**Rwan am y 'Cordon Bleu'!**
Rhowch weddill yr hufen mewn bag peipio a gwneud border uchel hyd ymylon y 'gateau'. Llenwch y canol gyda gweddill y mwyar duon ac addurno'r hufen â chnau.

**Rhaid i'r hufen fod o'r math y gellir ei chwpio nes bo'n eitha caled.*

O.N. Ticedi, yn rhad ac am ddim, i arddangosfa o ddefnyddio gwahanol ddarnau o gig yn y Ganolfan ym Morthmadog am 7.30 ar ddydd Iau, Tachwedd 24 1977. Anfonwch mewn digon o bryd (gydag amlen a stamp) i'r cyfeiriad isod:

**'Tickets',**
**Meat & Livestock Commission,**
**21 a North Parade,**
**Aberystwyth, Dyfed, SY23 2JL.**

# CEUNANT

**PENBLWYDD** hapus i Mrs. Margaret Thomas, Garth a oedd yn 92 oed ym mis Gorffennaf. Mae'n ddrwg gennym fod mor hwyr Mrs. Thomas – ond mae'r dymuniad yr un mor ddiffuant.

Cefnogwch ein Hysbysebwyr

STORFA
Mace
S.&E.
Jones
Llanrug
FFÔN: Caernarfon 2790
BLODAU A FFRWYTHAU YW EIN HARBENIGRWYDD

S. JONES
CYFANWERTHWR FFRWYTHAU
*(WHOLESALE FRUITERER)*
Y STORFA
LLANRUG
FFÔN
CAERNARFON 2790

# DINORWIG

**O'R YSBYTY** – Croesawn gartref o'r ysbyty Bryn Seiont, Mr. John D. Williams, Ty'n Fawnog Uchaf.

**CYMDEITHAS Y CHWIORYDD** – Wedi cyfnod o seibiant ail-ddechreuodd gweithgareddau'r gymdeithas. Llywyddes yw Mrs. Nellie Williams, 2 Bro Elidir; Trysorydd: Mrs. Katie Griffith, Arwelfa; Ysgrifennydd: Mrs. Betty Peris Roberts, 11 Maes Eilian. Ar ei chais ei hun rhoddodd Mrs. Dilys Williams, Tŷ Capel MC yr ysgrifenyddiaeth i fyny wedi 10 mlynedd o waith cyson. Diolchir iddi am wasanaeth diflino.

**CYDYMDEIMLO** – Cydymdeimlir â Mr. a Mrs. Alun Phillips, 6 Maes Eilian yn eu profedigaeth o golli eu hwyres fach, Marian Phillips, o 9 Stryd Newton, Llanberis. Hefyd â'r cysylltiad-au teuluol i gyd.

**CROESO** – Estynnir croeso cynnes i Mr. Emlyn Hughes, Bethel, fel arweinydd Clwb Ieuenctid Dinorwig a gynhelir bob nos Fawrth yn y Ganolfan. Bu cyfarfod cyntaf y tymor eleni nos Fawrth, Medi 20fed.


**MUDIAD ADFER** – Cafwyd noson hynod o lwyddiannus nos Wener Medi 9ed pryd y diddanwyd ieuenctid y fro gan 'Disco'r Graig' a'r grŵp 'Tocyn Chwech', mewn dawns wedi ei threfnu gan y gangen leol. 'R un oedd yr hanes ar nos Wener, Medi 23ain mewn dawns arall yng nghwmni y grŵp trydanol 'Sôs Coch' o Gaernarfon.

Bydd elw y ddwy noson yn mynd at Gronfa Eisteddfod Genedlaethol Caernarfon.

**CYDNABOD** – Dymuna Hugh Lewis Jones a Marian, 7 Bro Elidir, ddiolch o galon i'w perthnasau, cymdogion a'u cyfeillion am y caredigrwydd a'r cydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth o golli priod a mam annwyl.

Diolch arbennig i'r meddyg a fu yn gofalu yn dyner amdani, ac hefyd Miss Mair Foulkes, Fachwen, Mr. Owen Richard Williams, Bro Elidir, Dinorwig a'r Parch. Ronald Wyn Roberts, Deiniolen.

## Y CHWARELWYR WRTH EU GWAITH



*Gwyddys mai'r diweddar David Henry Thomas (Brynteg) a Robert Williams, (Bob Macpela) yw dau ohonynt, ond pwy yw'r trydydd?*

# PENISARWAUN

**UNDEB Y MAMAU (Eglwys Santes Helen** – Cafwyd cyfarfod mis Medi ar nos Lun y 6ed. Y gŵr gwadd oedd Mr. Tegid Roberts, Arwel, a chafwyd noson ddiddorol gyda chwis. Tîm B a orfu. 'Roedd Mrs. T. Roberts yn cadw'r sgôr. Cydymdeimlwyd â Mr. Cadwaladr (Belyn) Roberts (Arwel gynt) yn ei brofedigaeth o golli ei briod, un o hen aelodau o'r gangen hon.

Dymunwyd gwellhad i Mr. Llywelyn Jones, Mrs. Williams, Nefyn a Mr. Owen Thomas. Llongyfarchwyd Mr. a Mrs. Pritchard, Pensarn ar achlysur dathlu eu priodas aur, a Mr. a Mrs. Mowll ar eu priodas arian. Hefyd i Mair, Trefor a Reg ar eu priodasau yn ddiweddar.

Rhoddwyd y te gan Mrs. Owen Thomas a Mrs. Tom Evans, Brynrefail.
Diolchwyd gan Mrs. Mowll.

**GWAELEDD** – Dal yn wael mae Mr. Arthur Ellis Weirglodd Goch yn Ysbyty Gallt y Sil. Mae'r ardalwyr yn dymuno gwellhad buan iddo.

**EGLWYS CRIST (Caernarfon)** – Ar y Sul, Medi 11eg yr oedd cyfarfod cenhadol yn Eglwys Crist ac aeth amryw o aelodau St. Helen yno. Darllenodd y Ficer, y Parchedig Geraint Edwards y llith.

**PLANT YR EGLWYSI A'R CAPELI** – Mae plant yr eglwysi a'r capeli wrthi'n brysur yn paratoi ar gyfer cyfarfod y cylch yng Nghapel Brynrefail am 2.00 o'r gloch Hydref 2.

**GWAELEDD** – Drwg oedd gennym glywed am waeledd Mrs. Williams, mam Mr. Ieuan Williams, Glyn Euron. Bu yn Ysbyty Môn ac Arfon ac yna i Ysbyty Eryri. Da yw deall ei bod yn well. Ar hyn o bryd mae hi'n aros yng Nglyn Euron gyda Mr. a Mrs. Williams.

**DIOLCHIADAU** – Dymuna Mr. a Mrs. Wyn Griffiths, Bryn Glas Farm, Pentir ddiolch o galon i'r teulu, ffrindiau a'u cymdogion am y symiau hael o arian a'r anrhegion hardd a dderbyniwyd ar achlysur eu priodas.

Hefyd mae Mair, Llys y Gwynt yn diolch am y croeso cynnes a gafodd hi a'i mam gan bobl Penisarwaun wedi iddynt ddod i Lys y Gwynt i fyw. Mae hi'n dymuno bob bendith ar y cymdogion i gyd.

**GADAEL YSGOL A CHOLEG** – Mae Mr. Irfon Hughes wedi cwblhau ei gwrs yng Ngholeg Technegol Bangor ac yn awr mae yn gweithio ym Modurdy Trefor Llanrug.

Mae Miss Nerys Roberts hithau'n gweithio yn Llanrug.

Mae Mr. Kenneth Williams am ymuno a'r Llu Awyr yn y dyfodol agos.

Aeth Mr. Selwyn Griffith i Langefni i weithio.

Pob hapusrwydd a llwyddiant iddynt ar ddechrau eu gyrfaoedd newydd.

**BABAN NEWYDD** – Croeso mawr i Arwel, brawd bach newydd i Delwyn a Caroline, a mab bychan Mr. a Mrs. Victor Jones, 11 Bryntirion.

# LLANRUG

**LLONGYFARCHIADAU** — i Miss Beryl Thomas, Y Post am roi "Llythyrdy, Llanrug", ar yr adeilad.

**PWYLLGOR CRONFA RIGARUG** — Cyfarfu'r pwyllgor uchod nos Iau, Medi 8ed yn Festri Capel Mawr, gyda'r Dr. E. Lloyd Evans yn y gadair. Cafwyd adroddiad llawn ar y daith gerdded llwybrau cyhoeddus, a gobeithir gwneud elw o tua £150. Ein diolch i'r canlynol am gerdded: M. Lloyd Jones (Y Band); Bryn Davies a Dafydd Pritchard (Clwb Pêl-droed); Emlyn Jones (Cymdeithas Undebol Bryngwyn, Hermon, Pontrhythallt a Thanycoed); Eirlys Pierce (Cymdeithas Capel Mawr); Beth Anne Williams a Linda Jones (Merched y Wawr); Siân Williams ac Ann Llwyd (Ysgol Feithrin); Olwen Hughes (Cangen Llanrug o Blaid Cymru); Eurwyn Evans a Dafydd Thomas (Pwyllgor Rigarug). Diolch hefyd i Mr. T. Evans a Mr. Gareth Roberts am fod yn stiwardiaid am y pnawn. Nid eu bai hwy oedd fod rhai o'r cerddwyr wedi colli eu ffordd rhywle rhwng Plastirion a Phontrug!

Ein diolchiadau hefyd i bawb a fu'n noddi'r cerddwyr. Penderfynwyd cyfethol y cwbl o'r cerddwyr ar Bwyllgor Cronfa Rigarug. Mae rhai archebion eisoes wedi eu derbyn am Gardiau Nadolig Rigarug. Unrhyw un â diddordeb mewn prynu, dowch i gysylltiad ag unrhyw un o'r Pwyllgor. Brysiwch cyn i'r cardiau gael eu gwerthu i gyd!

Bydd bathodynnau a biros Rigarug ar werth cyn diwedd y mis hefyd, ac y mae trefniadau ar gyfer y Ffair Gaeaf eisoes ar droed.

Bychan yw'r nifer sy'n cyfarfod yn y Pwyllgor ar hyn o bryd, a byddem yn falch o weld mwy yn troi i mewn i roi help llaw gyda'r gwaith. Unrhyw un â diddordeb i ddod i gysylltiad â'r **Cadeirydd: E. Lloyd Evans, Carwyn, Ffôn: Caernarfon 4989 neu D. Whiteside Thomas, Bron-y-Nant, Ffôn: Caernarfon 3515.**

**COFIO FFYDDLONIAID** — Yn ystod y gwasanaeth yng Nghapel Pontrhythallt fore Sul Medi 18ed a'r gweinidog, Y Parch. W.O. Roberts yn gwasanaethu cyflwynwyd dwy rodd werthfawr i'r eglwys er cof am ddau aelod ffyddlon a gollwyd trwy farwolaeth. Cyflwynwyd sedd hardd ar gyfer yr organ gan Mr. Glyn Owen, Llys Eryri er cof am ei briod Mrs. Menai Owen. Cyflwynwyd hefyd gopi o'r Beibl Cymraeg Newydd at wasanaeth y pulpud gan y Parch. Dennis Green, Garndolbenmaen, er cof am ei dad, y diweddar Mr. Hughie Green, Glanffrwd. Diolchodd Mr. Roberts ar ran yr eglwys am y rhoddion.

**CYMDEITHAS UNDEBOL (Hermon, Pontrhythallt, Bryngwyn a Thanycoed)** — Bydd y Gymdeithas yn ail-ddechrau tymor arall, nos Fawrth, Hydref 25ain, yn Festri Capel Pontrhythallt, pryd y ceir sgwrs gan Mr. O.M. Roberts, Deganwy (gynt o Lanrug). Mae rhaglen amryddawn am y tymor eisoes wedi ei threfnu. Croeso cynnes i hen aelodau ac aelodau newydd.

**CYMDEITHAS LENYDDOL (Capel Mawr)** — Cafwyd pwyllgor i drefnu rhaglen y gymdeithas am y tymor 1977-8. Dewiswyd y swyddogion canlynol: Llywydd: Y Parch. W.O. Roberts, Annedd Wen; Islywydd: Mr. Alfred Parry, Bryn Heli; Trysorydd: Mr. John Williams, Gweledfa; Ysgrifennydd: Mr. John Wyn Owen, Llain-y-Delyn.

**MERCHED Y WAWR** — Cyfarfu'r gangen uchod yn yr Ysgol Gynradd, nos Fawrth, Medi 13eg, gyda Mrs. Nansi Roberts yn y gadair. Croesawyd amryw o aelodau newydd. Diddanwyd yr aelodau gan Barti Dawnsio Gwerin Aelwyd Caernarfon o dan arweiniad Mr. a Mrs. G. Idwal Williams, Disgwylfa a diolchwyd iddynt gan Mrs. Nansi Lovatt. Dewiswyd casglyddion at yr Henoed, ac etholwyd rhai i wasanaethu ar Bwyllgor Ffair sydd i'w chynnal yn Ysgol Brynrefail, yr elw tuag at Eisteddfod Genedlaethol Caernarfon. Diolchwyd am y te gan Miss Meirwen Roberts. Bydd y cyfarfod nesaf ar yr ail nos Fawrth ym mis Hydref, pan ddisgwylir y Dr. John Gwilym Jones i roddi sgwrs. Bydd y parti Nadolig ar yr ail nos Fawrth o Ragfyr yng Ngwesty Fictoria, Llanberis.

**TRIP AELODAU UNDEB Y MAMAU** — Aeth yr aelodau a'u cyfeillion ar daith ar hyd arfordir y Gogledd a thrwy Ddyffryn Conwy yr diweddar. Cafwyd pryd yr Nghwesty Bryntyrch, Capel Curig, a dod adref drwy Fwlch Llanberis. Mwynhaodd pawb eu hunain yn fawr iawn.

**ATGYWEIRIO EGLWYS SANT MIHANGEL** — Gobeithir dechrau ar y gwaith o atgyweirio'r eglwys cyn bo hir. Eisoes fe wnaed cais am drwydded i wneud y gwaith a derbyniwyd pris gan gwmni o'r Bontnewydd.

**PWYLLGOR Y CHWIORYDD** — Cyfarfu'r pwyllgor yn y Rheithordy yn ddiweddar i wneud paratoadau ar gyfer Ffair Mihangel a gynhaliwyd Medi'r 29ain yn yr Ysgol Gynradd er budd Cronfa Atgyweirio'r Eglwys.

**PRIODASAU** — Priododd mab a merch Mr. a Mrs. Oswald Davies, Plasgwyn yn ystod y mis. Yn Eglwys Llanfihangel y Traethau priodwyd Mr. Eryl Charles Davies gyda Miss Valerie Wyn Parry, Harlech. Gwasanaethwyd gan y Parch. T. Gomer Davies, Harlech a'r Parch. W.O. Roberts, Llanrug.

Yng Nghapel Mawr, Llanrug priodwyd Mr. Richard Gwyn Williams, Y Rhyl gyda Miss Enid Charles Davies. Gwasanaethwyd gan y Parch. W.O. Roberts a'r Parch. Trevor Phillips, Essex (ewythr y Briodferch).

Yn Eglwys Sant Twrog, Llandwrog priodwyd Mr. John Cadwaladr, Dolwyn, Glanffynnon gyda Miss Llinos Hughes, Fferm Bwlan, Llandwrog.

Pob bendith iddynt yn eu bywyd priodasol.

**TACLUSO'R FYNWENT** — Y mae mynwent Sant Mihangel yn edrych yn daclus iawn ar ôl ymdrechion y rhai a fu mor brysur yn torri'r gwair a'r mieri. Yr ydym fel Rheithor a Chyngor Plwyfol Eglwysig yn ddiolchgar iawn i'r Cynllun Creu Gwaith am anfon gweithwyr yn rhad ac am ddim i wneud y gwaith hwn.

**NEWYDDION Y SEINDORF** — Aeth tua hanner cant ar yr Helfa Drysor lwyddiannus a drefnwyd gan Mr. Clifford Williams, Awelon. Mwynhawyd cyw iâr mewn basged ar ddiwedd y daith ym Mhlas Tan Dinas. Yr enillwyr oedd Mr. a Mrs. Arwel Jones a Mr. a Mrs. Ian Pierce; Mr. a Mrs. Terry Lloyd Jones a Mr. a Mrs. Owen Jones. Enillwyd y raffl gan Mr. E. Knoks, Bron Haul. Mae'r Seindorf a'r Pwyllgorau yn ddiolchgar iawn i Mr. Clifford Williams, Mrs. Gwenda Roberts ac i bawb a gymerodd ran.

Cynhaliwyd Ffair Sborion yn ysgol 'Feed my Lambs'. Diolch eto am bob cymorth a chyfraniad.

**APÊL OFFERYNNAU'R SEINDORF** — Cynhaliwyd pwyllgor nos Fawrth, Medi 20fed gyda Mr. Jim Jones yn y gadair. Cafwyd adroddiad boddhaol iawn am yr apêl uchod. Ein diolch diffuant i'r casglyddion, i'r ardalwyr am eu cefnogaeth hael ac i Bwyllgor Carnifal Llanrug am eu rhodd anrhydeddus. Bwriada'r Seindorf fynd o amgylch yr ardal yn y dyfodol agos i ddangos eu gwerthfawrogiad.

**LLONGYFARCHIADAU** — i Mrs. Roberts, Fron Hyfryd ar gyrraedd ei phenblwydd yn 91 oed yn ystod y mis. Mae Mrs. Roberts yn yr ysbyty ar hyn o bryd. Dymunir adferiad buan iddi.

**CYWIRO** — Bu Anwen Jones, Cartrefle Michael John Lovatt, Brwynog; Berwyn Owen, Glasgoed; Ann Thomas, Gwenallt a Gwyn Thomas, Algwyn yn llwyddiannus yn arholiadau'r Lefel 'A' ac nid yn Arholiadau Lefel 'O' a'r 'CSE' fel y printiwyd yn y rhifyn diwethaf. Ein dymuniadau gorau iddynt ar ddechrau eu cyrsiau colegol.

**CYDYMDEIMLO** — Yn ystod y mis bu farw Mr. Jack Williams, 19 Rhos Rug a Mrs. Frances Jones, Cartrefle. Cydymdeimlwn â'r ddau deulu yn eu galar.

**GWAELEDD** — Bu amryw o'r pentrefwyr yn wael yn ddiweddar ac yn eu mysg Mrs. O.D. Griffith, 12 Glanmoelyn a fu o dan driniaeth lawfeddygol yn ddiweddar. Y mae ei phriod hefyd yn ysbyty Gallt y Sil. Bu Mrs. M. Owen, 4 Glanmoelyn yn cwyno peth hefyd ond da ei gweld o gwmpas eto.

**BABAN NEWYDD** — Ganwyd mab, Gareth, i Mr. a Mrs. Tony Parry, Stad Afon Rhos. Llongyfarchiadau!

**PRIODAS** — Ar Fedi 3ydd yng Nghapel M.C. Graigwen, Edern, priodwyd Miss Helen Ann Lewis, Madryn House gyda Mr. Goronwy T. Roberts, Edern.

## YMWELWYR O ALASKA



Llun trwy garedigrwydd yr Herald.

Mr. R. Ieuan Williams, B.Sc. mab Mr. Erasmus Williams a'r ddiweddar Mrs. A.G. Williams, Rhianfa, Ffordd y Rheilffordd, Llanrug gynt. Un o Flaenau Ffestiniog yw ei wraig, Brenda ac mae ganddynt un merch fach, Helen Ceridwen. Bedyddiwyd Ceridwen yn yr Wyddgrug gan y Parch. J. Erian Davies.

Mae Ieuan yn brif beiriannydd gyda chwmni enwog "Alaska Pipeline". Ar hyn o bryd mae'r cwmni wedi ymgymeryd â phroject mwya'r byd, sef o Texas i Alaska, rhyw 8,000 o filltiroedd.

Maent yn hwylio'n ôl yr wythnos nesaf i wynebu 7 mis o aeaf caled.



*Mr. John Parry (gynt o Lanrug) yn darllen yr* Eco *yn Peterborough, Ontario, Canada. Mae Mr. Parry yn edrych ymlaen bob mis am* Eco'r Wyddfa *— fel hyn gall gadw cysylltiad agos â'r ardal sydd mor agos at ei galon.*

**DIOLCH**

**DYMUNA Eco'r Wyddfa ddiolch yn fawr iawn i Bwyllgor Carnifal Llanrug am eu rhodd o £5 tuag at gostau argraffu'r papur.**

# CWM-Y-GLO

**YN GWELLA** — Da gennym ddeall fod amryw o'r pentref sydd wedi bod mewn ysbytai, rhai dan driniaeth lawfeddygol, yn gwella — Mrs. Carol Evans a Bryn 15 Dolafon, Miss Olwen P. Jones, Gwylfa, Mr. Thomas Owen, 3 Dolafon, Mr. Eric Williams, Goleufryn, Mrs. Iris Rowlands, Glan 'Rafon a Mark Jones, Gwesty'r Snowdon.

Gofidiwn am waeledd Miss Ella Morris, Bron Eryri, a'r Prifathro Mr. Eurwyn T. Jones. Cofion atoch, a dymuniadau gorau am lwyr wellhad i chwi i gyd.

**CLWB IEUENCTID** — Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y clwb, nos Iau Medi 22ain. Dymunwn dymor difyr a llwyddiannus i'r arweinydd a'r aelodau.

**MERCHED Y WAWR** — Gyda'r Llywydd newydd, Mrs. Verna Jones yn y gadair, agorwyd tymor '77–78 gyda darlith wych gan Miss Mat Pritchard, un o aelodau'r gangen.

Hanes trychinebus dryllio y 'Royal Charter' gafwyd ganddi, ac oherwydd ei chwilota trylwyr a'i harddull feistrolgar nodweddiadol, medrodd greu awyrgylch y drasiedi fawr yn fyw iawn i'w gwrandawyr. Diolchwyd iddi gan Mrs. K. Watkins ac ategwyd gan Mrs. L. Prys Williams. Dymunwyd adferiad buan i Miss O. Parry Jones, (Gohebydd i'r Wasg) ac hefyd i'r Prifathro E. T. Jones. Croesawyd un aelod newydd — Mrs. Iris Rowlands, a dymunwyd llwyddiant i Miss Dilys Jones ar ddechrau ei chwrs yng Ngholeg Aberystwyth.

Y gwestwragedd oedd Mrs. M. Williams a Mrs. G. Chick, enillwyd y raffl gan Mrs. Sylvia Williams, Llwyncoed.

**CYNGOR CYMUNED** — Balch iawn ydym fel pentref fod Mr. Geraint Pritchard, Bryn Difyr wedi ei gyfethol i lanw'r sedd wag oedd yn bodoli yn ward Cwm-y-glo ar Gyngor Cymuned Llanrug. Mae'n galondid mawr gweld gŵr ifanc yn ymgymryd â'r gwaith yma; yn sicr bydd Mr. Pritchard yn gaffaeliad i'w gyd-gynghorwyr a'r ardal.

**TÎM NEWYDD** — Bu gêm bêl-droed rhwng tîm o fechgyn Bethel a thîm bechgyn y Cwm Medi 7ed. Bethel a orfu o 4–1. Sgoriwyd gôl Cwm gan Kevin Owen.


**Wavell Roberts**
**CIGYDD**
**LONDON HOUSE**
**LLANRUG**
**Ffôn: Caernarfon 3574**
*PEN CIGYDD Y FRO!*
Yr ŵyn lleol mwyaf blasus
Selsig cartref, cigoedd parod i'w bwyta
Archebion ar gyfer y rhewgist
**MYNNWCH Y GORAU A DEWCH ATOM NI!**

# Dyddiadur y Mis

1: Sadwrn: LLANRUG: Taith gerdded noddedig, yr elw er budd atgyweirio Eglwys Sant Mihangel. LLANBERIS: Disco yn y Ganolfan gyda Sonic System Two am 7.00.
2. Sul: CAPEL BRYNREFAIL: Cyfarfod gan blant eglwysi a chapeli'r cylch am 2 o'r gloch.
3: Llun: BETHEL: Dosbarth Cadw'n Heini yn y Neuadd am 7.30. LLANRUG: Dosbarth WEA yn yr Ysgol Gynradd am 7.00. LLANBERIS: Clwb Methedig Eryri yn y Ganolfan am 2.00 Gyrfa Chwist dan nawdd y St. John yn y Ganolfan am 7.30. Dosbarth WEA Arlunio yn yr Ysgol Gynradd am 7.00.
4: Mawrth: DEINIOLEN: Dosbarth WEA yn yr Ysgol Gynradd am 7.00. WAUNFAWR: Yr Aelwyd yn dechrau tymor newydd yng nghwmni parti o Aelwyd Ysgol Eifionydd, Porthmadog yn Neuadd yr Eglwys am 7.30.
5: Mercher: BRYNREFAIL: Dosbarth WEA yn Festri'r Capel am 7.30. LLANBERIS: Clwb y Mamau yn y Ganolfan am 7.30, "Arddangosfa Blodau" gan Miss Vaughan Davies. Y Gymdeithas Ddrama.
6: Iau: WAUNFAWR: Clwb Gwyrfai yn cyfarfod. Sefydliad y Merched yn cyfarfod.
BRYNREFAIL: Cyngerdd Agoriadol y Gymdeithas Lenyddol.
7: Gwener: PENISARWAUN: Gyrfa Chwist yn Neuadd yr Eglwys am 7.30. BETHEL: Yr Urdd yn dechrau tymor newydd. CLWB ERYRI: yn dechrau tymor newydd pryd y ceir sgwrs gan Mr. Owen Humphreys. WAUNFAWR: Dosbarth WEA Arlunio yn yr ysgol am 7.00. Noson Goffi yn Neuadd yr Eglwys. Yr elw at Gronfa Eisteddfod Croesywaun.
10: Llun: BETHEL: Dosbarth Cadw'n Heini yn y Neuadd am 7.30. LLANBERIS: Dosbarth WEA Arlunio yn yr ysgol am 7.00. Clwb Methedig Eryri yn y Ganolfan am 2.00. Gyrfa Chwist dan nawdd y Clwb Pel-droed yn y Ganolfan am 7.30. LLANRUG: Dosbarth WEA yn yr Ysgol Gynradd am 7.00. WAUNFAWR: Dosbarth WEA yn yr Ysgol Gynradd am 7.15. Cyfres o 5 darlith ar 'Hanes Lleol' gan Mr. Rhodri Prys Jones, BA.
11: Mawrth: DEINIOLEN: Dosbarth WEA yn yr Ysgol Gynradd am 7.00. CWM-Y-GLO: Undeb y Mamau. LLANRUG: Merched y Wawr, sgwrs gan y Dr. John Gwilym Jones. WAUNFAWR: Cyngor Cymdeithas. Yr Aelwyd.
12: Mercher: LLANRUG: Noson Goffi yn Ysgol Brynrefail gyda byrddau gwerthu, arddangosfa arlunio ac ymarfer corff. Agorir y noson gan Mrs. Menna Williams. BRYNREFAIL: Dosbarth WEA yn y Festri am 7.30. LLANBERIS: Bingo dan nawdd Pwyllgor Plaid Lafur yn y Ganolfan am 7.30. Y Gymdeithas Ddrama. WAUNFAWR: Yr Urdd.
13: Iau: LLANBERIS: Plaid Cymru – Cyfarfod Cyrffredinol a Choffi yn y Ganolfan am 7.30. Y CYLCH: Sefydliad y Merched, Noson Lawen yn Neuadd Ysgol Brynrefail, Llanrug.

14–23... CYFARFOD DATHLU daucanmlwyddiant Capel Coch, Llanberis 1777–1977.
14: Gwener: LLANBERIS: Te Parti y plant i ddathlu dauganmlwyddiant Capel Coch. Clwb yr Henoed yn y Ganolfan. WAUNFAWR: Dosbarth WEA yn yr ysgol am 7.00. Arlunio. Noson Goffi'r Eisteddfod Genedlaethol yn Neuadd yr Eglwys.
16: Sul: LLANBERIS: Capeli MC Llanberis, Dinorwig a Rehoboth, gwasanaethir gan y Parch. J. Alwyn Parry yng Nghapel Coch am 10.00 a 5.30.
17: Llun: DYDD DIOLCHGARWCH: WAUNFAWR: Cyfarfodydd diolchgarwch. LLANBERIS: Capeli MC, Cyfarfod Gweddiau.
18: Mawrth: LLANBERIS: Capel Coch Cyfarfod y Dathlu am 7.00.
19: Mercher: LLANBERIS: Capel Coch, pregeth gan y Parch. Meirion Lloyd Davies, Pwllheli am 7.00. Clwb y Mamau yn y Ganolfan am 7.30 pryd y cier cwmni Mrs. Lovatt.
20: Iau: WAUNFAWR: Clwb Gwyrfai. LLANBERIS: Disco yn y Ganolfan gyda Sonic System Two er budd y Clwb Pêl-droed.
21: Gwener: PENISARWAUN: Gyrfa Chwist yn Neuadd yr Eglwys am 7.30. BETHEL: Sefydliad y Merched.
23: Sul: LLANBERIS: Cynhelir Cymanfa Ganu yng nghwmni Cor y Penrhyn yng Nghapel Coch am 7.30.
24: Llun: LLANBERIS: Clwb Methedig Eryri yn y Ganolfan am 2.00. Gyrfa Chwist dan nawdd y Clwb Peldroed yn y Ganolfan am 7.30. Cymdeithas Lenyddol Capeli MC yn dechrau tymor newydd yn Festri Capel Coch am 7.15. Dosbarth WEA Arlunio yn yr Ysgol Gynradd am 7.30. BETHEL: Dosbarth Cadw'n Heini yn y Neuadd am 7.30. WAUNFAWR: Cymdeithas Lenyddol Undebol, darlith gan y Parch. H.J. Hughes, Mynydd Llandegai ar 'Byd Naur'. LLANRUG: Dosbarth WEA yn yr Ysgol Gynradd am 7.00.
25: Mawrth: BETHEL: Cyfarfod cyntaf dosbarth WEA yn yr Ysgol Gynradd am 7.30. Cyfres o 5 darlith gan Mr. Geraint James. BA ar 'Hanes Cymru'. DEINIOLEN: Dosbarth WEA yn yr Ysgol Gynradd am 7.00. WAUNFAWR: Yr Aelwyd. LLANRUG Cymdeithas Undebol Hermon, Pontrhythallt, Bryngwyn a Thanycoed yn Festri Capel Pontrhythallt pryd y ceir sgwrs gan Mr. O.M. Roberts.
25: Mercher: BRYNREFAIL: Dosbarth WEA yn y Festri am 7.30. LLANBERIS: Bingo dan nawdd Cangen Plaid Lafur yn y Ganolfan am 7.30. Y Gymdeithas Ddrama. WAUNFAWR: Yr Urdd.
27: Iau: LLANBERIS: Sefydliad y Merched yn y Ganolfan am 7.00 pryd y ceir sgwrs ar atal Troseddau. WAUNFAWR: Merched y Wawr
28: Gwener: LLANBERIS: Clwb yr Henoed yn y Ganolfan. WAUNFAWR: Dosbarth WEA Arlunio yn yr Ysgol Gynradd am 7.00.
31: Llun: BETHEL: Dosbarth Cadw'n Heini yn y Neuadd am 7.30. LLANRUG: Dosbarth WEA yn yr Ysgol Gynradd am 7.00. WAUNFAWR: Dosbarth WEA 'Hanes Lleol' yn yr Ysgol Gynradd am 7.15. LLANBERIS: Clwb Methedig Eryri yn y Ganolfan am 2.00. Gyrfa Chwist dan nawdd y St. John yn y Ganolfan am 7.30. Dosbarth WEA Arlunio yn yr Ysgol am 7.00. PEN-Y-PASS: Dosbarth WEA yn dechrau. 'Art and Science in Mountain Photography'. Cyfres o 5 darlith gan Mr. Phillip Evans yn yr Hostel am 7.45.


DYDDIADAU I'W COFIO

Tachwedd 10-11: Eisteddfod Gadeiriol Bethel.
Tachwedd 12: Eisteddfod Flynyddol Waunfawr yng Nghapel Croesywaun
Tachwedd 18–19: Eisteddfod Gadeiriol Dyffryn Ogwen.


## AR WERTH

Pandem babi 'Leway' (pram gyda lle i ddau) – £15
Sgrin dân – diogel i blant. £3. Waunfawr 545.
"Pram Push Chair" las dywyll mewn cyflwr da – £10. Ffôn Llanberis 716.
Goetsh Gadair, £4. Ffôn: Llanberis 716.


# Croesair 17



**AR DRAWS:**
1. ... piws – amser te! (5)
5. Math o wreiddiau a fwyteir (5)
8. Gwroniaid (5)
9. "Mi sydd fachgen ... ffôl" (5)
10. Dryllio neu rwygo (5)
11. Sŵn aflafar yn y bore – ond rhaid ei gael (5)
12. Hylif i ysgrifennu ag ef (3)
13. Murmur (2)
14. Bardd cerdd o bedair llinell ar ddeg (7)
18. Blawd ceirch wedi ei ferwi mewn dŵr neu lefrith (3)
19. Eithr (3)
21. Gostyngeiddrwydd (7)
25. Annwyl (2)
26. Gradd eithaf isel – ar lafar! (3)
27. Heb un arall (4)
28. Angau (5)
29. Fflag (5)
30. Offeryn cerdd (5)
31. 'Rwan (2.3)
32. Cenadwri (5)
33. Gwatwar (5)

**I LAWR:**
1. Cyfnod o ddeuddeg awr a thrigain (7)
2. Rhaid cael y rhain ar y gwely yn y gaeaf (8)
3. Destlus (6)
4. Pobl gyffredin neu ddawns (6)
5. "Er dyfned yw y loes,
Er ... yw y groes." (6)
6. Trafod (4)
7. Hanes (5)
15. Mae digon o hwn ym môr y gogledd (3)
16. Meddai (3)
17. Yn ôl y gân mae un diog, ond un lliwgar yw hwn (5.3)
20. "Mae pistyll henafol yn ymyl y llan
A ... ganghenog yn gysgod i'r fan" (8)
22. Aderyn mawr na all ehedeg (6)
23. Yn wir (6)
24. Disg gramaffon (6)
25. Dilledyn nos (5)

**Cyfrir y llythrennau canlynol fel UN:**
CH; DD. FF; NG; LL; PH; RH; TH.

Gwobr o £1 i'r ateb cyntaf cywir a dynnir ar ôl i'r holl gynigion ddod i law.

**ATEBION CROESAIR RHIF 16**

**AR DRAWS:** 1. Colledig; 5. Esgid; 8. Manna; 9. Llannerch; 10. Llon; 12. Ras; 13. Non; 14. Llewygu; 15. Llymder; 18. Fro; 19. Dol; 20. Gad; 22. Gwaethaf; 23. Ficer; 25. Llethol. 26. Dirprwy.

**I LAWR:** 1. Cymell; 2. Llan; 3. Draenog; 4. Galaru; 5. Echnos; 6. Gweinidog; 7. Dychanwr; 11. Nawddogaeth; 14. Llyfrgell; 16. Ynysfor; 17. Clefyd; 19. Dethol; 21. Dirwy; 24. Côr.

Enillydd croesair rhif 16:
**John Owen Jones, Tŷ Uchaf, Padog, Betws-y-Coed.**

Anfoner y cynigion fel arfer i:
**Myrddin Owen, 32, Stryd Fawr, Llanberis.**

ENW . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . .

CYFEIRIAD . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . .

. . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . .

# CHWARAEON

## Judokas Y Fro

**FE gofiwch i mi yn rhifyn 5 o *Eco'r Wyddfa* longyfarch Wyn Hughes o Ddeiniolen ar ei gamp o ennill belt du mewn Judo. Mae bellach, yn ardal *Eco'r Wyddfa,* nifer o Judokas (rhai sy'n chwarae'r gêm) ac i Wyn mae'r diolch am eu hannog i ymgymeryd â hi. Rhyw hanner dwsin o'r fro sydd â diddordeb, ond pan gofir nad oes lle iddynt i ymarfer yn nes na Bangor, mae'r nifer yn galonogol iawn.**

**Y Clwb Judo Bushido yw'r ganolfan, ac mae Wyn yn un o dri hyfforddwr ynddo ac yn un o ddau â'r belt du sy'n perthyn i'r Clwb, a ffurfiwyd yn 1969 dan reolaeth Cymdeithas Judo Cymru a Phrydain. Chaiff neb ond y rhai trwyddedig hyfforddi ynddo ac mae'r safon yn uchel iawn.**

Mae'r dysgwr, sy'n gwisgo'r belt gwyn, yn ennill iddo'i hun y beltiau melyn, oren, gwyrdd, glas a brown drwy gystadleuaeth yn erbyn rhai sydd ar yr un ris, a gall Judoka addawol gyrraedd y brown yn weddol gyflym. Mae'r ris o'r brown i'r du yn gofyn am lawer mwy o ymdrech a gallu.

Mae angen dillad arbennig, y wisg Judogi ar gyfer y chwarae, a gall hon gostio £8 neu fwy. Mae'r gost o ymaelodi â'r Clwb yn £3 y flwyddyn, a chodir 20c y tro am ddefnyddio'r mat.

Mae'r Clwb yn cyfarfod deirgwaith yr wythnos, a gallaf dystio fod gwaith caled yn mynd ymlaen yno. Bûm yn eu gwylio'n ymarfer yr wythnos ddiwethaf, gan dalu sylw arbennig i'r rhai o'r fro. Y mwyaf llwyddiannus o ddigon ydi Paul Williams o Lanrug. Mae'r belt brown gan Paul eisoes, yn 17 mlwydd oed, ac mae addewid gadarn yma am y du. Mae wedi datblygu'n eithriadol o gyflym, mae digon o frwdfrydedd ganddo i fynd i'w hyfforddi gan yr arbenigwyr yn Llundain, ac mae'n ymarfer yn gyson, nid yn unig yn y Clwb ond yn rhedeg hefyd hyd lwybrau'r ardal er datblygu ei ffitrwydd a'i gryfder. Paul yw pencampwr 10 stôn Gwynedd, ac mae'r fedal aur ganddo.

Mae Anwen Hughes, merch Wyn yn ymwneud â'r gêm ers 2 flynedd, ac mae'r belt melyn ganddi. Hi yw pencampwraig Gwynedd i rai dros 7½ stôn , ac mae medal aur ganddi hithau hefyd.

Yn nosbarth 4 Ysgol Brynrefail mae Eurun Williams o Ddeiniolen ond yn ffodus dydi o ddim yn dod â'i felt melyn i'r ysgol, na chwaith yn ymarfer ei allu arbennig ar blant y dosbarth. Mae medal efydd ganddo ef.

Belt oren a medal arian sydd gan John Thomas o Ddeiniolen. Bu'n aelod o Glwb Beddgelert cyn ymuno â Bangor.

'Roedd Meirion Thomas gynt o Lanberis wedi dod i'r Clwb ar gefn ei feic pedal yr holl ffordd o Gaerwen. Mae'r belt gwyrdd gan hwn, a 5 mlynedd o brofiad yn y gêm.



*Judokas bro* **Eco'r Wyddfa** *– yn y cefn: Wyn Hughes, Meirion Thomas, John Thomas. Yn y blaen: Anwen Hughes, Eurun Williams a Paul Williams.*

Gadawyd fi â'r argraff, ar ôl gwylio'r ymarferiadau, y taflu a'r hyfforddi am gryn amser fod yna bobl hunan hyderus, effro, oedd wedi derbyn rhywbeth na allai'r un ohonynt ei roi mewn geiriau oddi wrth y gêm. Mae pob un ohonynt yn byw o un noson ymarfer i'r llall, ac yn diystyru'r costau amser ac arian. Does neb yn rhy hen i ddechrau, yn wir 'roedd un gŵr 56 oed yno yr wythnos ddiwethaf, ar ei ail ymweliad, a rhai ieuainc iawn oedd yn hen lawiau arni.

Credaf fod lle yma i'r rhai sydd heb lewyrchu yn y gemau traddodiadol, ac mae Wyn yn pwysleisio fod croeso i unrhyw un o'r ardal i ymuno â'r Clwb.

Mae'r 15 a'r 17 o Hydref wedi eu neilltuo i dderbyn aelodau newydd – dysgwyr – beth am droi i mewn? Os bydd digon o ddiddordeb efallai y gellir pwyso ar Wyn i ddechrau Clwb Judo ym mro *Eco'r Wyddfa.*

## Pêl-droed

**MAE pethau'n gwella! Mae tabl Cynghrair Arfon am y tro cyntaf ers blynyddoedd yn adlewyrchu gwir werth timau pêl-droed bro *Eco'r Wyddfa.* Mae timau da yn y ddau bentref, a'r canlyniadau hyd yma yn cyfiawnhau'r holl ymdrechion a wnaed ar ran y clybiau yn ystod yr haf.**

**Tasg hawdd oedd proffwydo, fel y gwnaethom yn rhifyn Gorffennaf o'r *Eco* y deuai llwyddiant i Lanrug, gan fod Howyn Jones wedi casglu carfan gref iawn o'i gwmpas. Adeiladu ar gnewyllyn goreuon tîm y llynedd wnaeth Selwyn Allsup yn Llanberis, ac mae'r rhai a berswadiwyd ganddo i ymuno â'r crysau melyn wedi mwy na chadarnhau ei obeithion.**

**Llanberis sydd ar grib y gynghrair a Llanrug yn ail, ond wedi chwarae un gêm yn llai. Mae'r ystadegau'n galonogol dros ben:**

| | ch | e | cyf | colli | ob | ye | pt |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 Llan'is | 8 | 6 | 2 | 0 | 32 | 9 | 14 |
| 2 Llanrug | 7 | 6 | 1 | 0 | 28 | 10 | 13 |

**a gobeithir mai un tebyg fydd tabl diwedd y tymor. Bydd yn rhaid cadw llygad ar Caernarfon Utd. – mae tîm da yno hefyd, ond mae'n anodd gweld neb arall yn creu problem iddynt.**


### LLANRUG

**3 Medi 1977**

Yn erbyn y pencampwyr Pwllheli ar eu tir eu hunain, ond yn dangos iddynt fod Llanrug â'u bryd ar y bencampwriaeth eleni, Ennill o 3–0, gyda Hefin Pritchard a Dic Owen yn sgorio i Lanrug, a Mike Jones o Bwllheli yn eu helpu trwy sgorio'r drydedd.

**6 Medi 1977**

Un o'r gemau gorau a welwyd y tymor hwn hyd yn hyn mae'n siŵr, a Llanrug yn maeddu tîm cryf o Gaernarfon Utd. Gallasai'r sgôr yn hawdd fod tua 5 neu 6 gôl onibai i Islwyn Owen gael gêm arbennig yn y gôl i Gaernarfon. Y dorf dda yn cael gwerth eu harian o wylio Llanrug yn ennill o 3–1, gyda 2 gôl gan Dic Owen ac 1 gan Barrie Pitts.



*Wyn yn hyfforddi rhai o ieuenctid y Clwb.*

**10 Medi 1977**

Llanrug yng Nghaernarfon y tro hwn yn rownd 1af Cwpan Cyfryngol Cymru a Chaernarfon Utd. yn talu'n ôl iddynt am eu curfa ganol yr wythnos. Llanrug yn colli ar eu cynnig cyntaf yn y cwpan hwn o 1–3. Dafydd Horman yn sgorio'u hunig gôl – ei gôl gyntaf ers tua 2 dymor!

**17 Medi 1977**

Bangor Athletic, ar ben y gynghrair yn colli eu safle oherwydd y gurfa hon gan Llanrug. B. Pitts yn rhoi Llanrug ar y blaen, ond Bangor yn taro'n ôl i lefelu'r sgôr erbyn hanner amser. Yn yr ail hanner, Llanrug yn ennill y gêm gan gyffyrddus gyda gôl yr un gan Peter Roberts a Hefin Jones.

**24 Medi 1977**

**Llanrug 8 Nefyn 1**

Nefyn oedd yr ymwelwyr yn Llanrug, ond ni chawsant fawr o groeso ar y cae pêl-droed. Gwynt cryf yn tueddu i ddifetha llawer o'r symudiadau. Nefyn yn lwcus i gadw'r sgôr i 1–3 ar yr egwyl, ond ar ôl hanner amser, a'r gwynt i'w cefnau, 'roedd Llanrug yn rheoli, a sgorwyd 5 gôl arall. Y sgorwyr oedd Dic Owen 3; B. Pitts 2; Hefin Jones 2 a Gwynfor Owen.

### LLANBERIS

**3 Medi 1977**

Tair gôl gan Ray Harding, Ieuan Evans a Gwilym Williams yn gyrru'r Castellwyr yn ôl i Harlech yn ddi-bwynt.

**10 Medi 1977**

Y Felinheli, un o dimau newydd y Gynghrair, yn rhoi gêm dda iddynt, ond bu dwy gôl gan Ray Harding ac Iwan Evans yn ddigon i ennill o 2 gôl i 1.

**17 Medi 1977**

Llanberis yn gwneud defnydd o gae mawr Porthmadog, ac yn ennill o 5 gôl i 1. Ray Harding (2); Gwilym Williams (2) a Dick Parry yn sgorio.

**24 Medi 1977**

**Bethesda 1 Llanberis 5**

Un gôl i ddim i Fethesda oedd y sgôr hanner amser, a chredaf fod Llanberis yn eithaf hapus gan fod y gwynt cryf ar Barc Meurig i'w hwynebau.

'Roedd yr ail hanner yn gêm hollol wahanol, a Llanberis yn dangos i Fethesda sut oedd defnyddio'r gwynt. Cic gôl gan Gwilym Williams dros dri chwarter y cae, a'r Gwilym Williams arall yn ei phlannu yn y rhwyd o 20 llath. Dyna'r llifddorau wedi eu hagor, a daeth gôl wedyn yn weddol gyson pob rhyw ddeng munud. Dick Parry'n penio'r ail ar ôl gwaith da gan Ieuan Evans, a Ray Harding yn rhedeg trwodd am y drydedd. Cic gosb i Ray oedd y bedwaredd ar ôl i Dick Parry achosi i un o gefnwyr Bethesda rwystro cic cornel rhag mynd i'r rhwyd â'i law. Cic gref yn erbyn y trawst gan Gwilym Williams fu'r agoriad i Ray sgorio ei drydedd.